



**Mae Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru yn rhoi tystiolaeth ac arbenigedd annibynnol awdurdodol i weinidogion, uwch lunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n eu helpu i ganfod ymatebion polisi effeithiol ac atebion ymarferol i rai o'r heriau polisi mwyaf sy'n wynebu Cymru.**

Mae'r Ganolfan wedi gweithio ar amrywiaeth eang o heriau polisi ac ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n benodol ar ddatblygu syniadau newydd am lesiant cymunedol, yr amgylchedd a sero net, yn ogystal â mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'n gweithio mewn partneriaeth ag ymchwilwyr blaenllaw ac arbenigwyr polisi o bob cwr o'r byd ac mae'n defnyddio ei waith gyda Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus i ddatblygu dealltwriaeth o lunio a gweithredu polisiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Drwy secondiadau, lleoliadau PhD a'i rhaglen Prentisiaeth Ymchwil, mae'n arfogi ymchwilwyr ar ddechrau eu gyrfa i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n berthnasol i bolisi.

Mae'r Ganolfan yn aelod o Rwydwaith What Works y DU ac yn rhan o'r Arsyllfa Polisi Cyhoeddus Rhyngwladol (IPPO). Mae'n cysylltu llunwyr polisi ac arweinwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru â'r ffynonellau ychwanegol hyn o dystiolaeth ac arbenigedd.

I gael rhagor o wybodaeth ewch i'n gwefan yn [www.wcpp.org.uk/cy/](http://www.wcpp.org.uk/cy/)

## Cyllidwyr Craidd



Sefydlwyd **Prifysgol Caerdydd** ym 1883. Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli mewn prifddinas ffyniannus, ac mae'n sefydliad uchelgeisiol ac arloesol sy'n awyddus i feithrin cydberthnasau rhyngwladol cryf a dangos ei hymrwymiad i Gymru.



Mae'r **Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol** yn rhan o UK Research and Innovation, sefydliad newydd sy'n dwyn ynghyd saith cyngor ymchwil y DU, Innovate UK a Research England i sicrhau bod pob cyngor yn cyfrannu cymaint â phosib ac i greu'r amgylchedd gorau ar gyfer datblygu ymchwil ac arloesedd.



**Llywodraeth Cymru** yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gyfrifol am feysydd allweddol o fywyd cyhoeddus, gan gynnwys iechyd, addysg, llywodraeth leol a'r amgylchedd.

# Cynnwys

<b>Rhestr o Dermau</b>	<b>4</b>
<b>Rhestr o Dablau</b>	<b>5</b>
<b>Rhestr o Ffigurau</b>	<b>5</b>
<b>Crynodeb</b>	<b>6</b>
<b>Cyflwyniad</b>	<b>8</b>
Cwestiynau'r adolygiad	10
<b>Data a Dulliau</b>	<b>11</b>
Y Dull Carfan	12
Y Dull Poblogaeth	14
Cyflwyno'r Canlyniadau	14
<b>Dadansoddiad Carfan</b>	<b>18</b>
Dilyniant a diffyg dilyniant i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach	18
Math o raglen ar draws y Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach	25
Tynnu'n ôl o'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach	36
Dilyniant i Addysg Uwch	39
<b>Dadansoddiad Poblogaeth</b>	<b>43</b>
Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol	44
Cyrhaeddiad mewn Addysg Drydyddol	53
<b>Crynodeb a Chasgliad</b>	<b>59</b>
<b>Cyfeiriadau</b>	<b>62</b>
<b>Cydnabyddiaeth</b>	<b>63</b>
<b>Manylion yr Awduron</b>	<b>64</b>

# Rhestr o Dermau

## Acronymau

<b>AAA</b>	Anghenion Addysgol Arbennig
<b>AB</b>	Addysg Bellach
<b>ACL</b>	Dysgu Oedolion yn y Gymuned
<b>AHO</b>	Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol
<b>AU</b>	Addysg Uwch
<b>CTER</b>	Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
<b>CYBLD</b>	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion
<b>CYBLD CDC</b>	Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion y Casgliad Data Cenedlaethol
<b>FSM</b>	Prydau ysgol am ddim
<b>HESA</b>	Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch
<b>HND</b>	Diploma Cenedlaethol Uwch
<b>LEO</b>	Canlyniadau Addysg Hydredol
<b>LLWR</b>	Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru
<b>NET</b>	Ddim mewn Addysg na Hyfforddiant
<b>NEET</b>	Dim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
<b>NPD</b>	Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion
<b>NS-SEC</b>	Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol Ystadegau Gwladol
<b>SEC</b>	Dosbarthiad Economaidd-Gymdeithasol
<b>SOC</b>	Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol
<b>WBL</b>	Dysgu Seiliedig ar Waith

# Rhestr o Dablau

Tabl 1: Llwybrau Carfan Cyfnod Allweddol 4, 2011/12–2016/17	13
Tabl 2: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl nodweddion personol 2011/12–2016/17	20
Tabl 3: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad: 2011/12–2016/17	22
Tabl 4: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl nodweddion cefndir personol ac arall: 2011/12–2016/17	24
Tabl 5: Canran math o raglen AHO dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol 2011/12–2016/17	27
Tabl 6: Canran math o raglen AHO dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17	29
Tabl 7: Canran math o raglen AHO dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17	31
Tabl 8: Canran math o raglen dysgu seiliedig ar waith dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol 2011/12–2016/17	32
Tabl 9: Canran math o raglen dysgu seiliedig ar waith dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17	34
Tabl 10: Canran math o raglen Dysgu Seiliedig ar Waith dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17	35
Tabl 11: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a wnaeth dynnu'n ôl o Flwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn ôl nodweddion personol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17	37
Tabl 12: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a wnaeth dynnu'n ôl o Flwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17	38
Tabl 13: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 wnaeth symud ymlaen i Addysg Uwch yn ôl nodweddion personol 2011/12–2015/16	40

Tabl 14: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 wnaeth symud ymlaen i Addysg Uwch yn ôl nodweddion o'r Cyfrifiad 2011/12-2015/16	41
Tabl 15: Cyfansoddiad cyfranogiad mewn addysg drydyddol: Nodweddion personol a ddewiswyd, 2011/12-2016/17	46
Tabl 16: Cyfansoddiad cyfranogiad mewn addysg drydyddol: Statws economaidd-gymdeithasol, 2011/12-2016/17	48
Tabl 17: Cyfansoddiad cyfranogiad mewn addysg drydyddol: Amddifadedd aelwydydd, 2011/12-2016/17	52
Tabl 18: Cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol: Nodweddion personol a ddewiswyd, 2011/12-2016/17	55
Tabl 19: Cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol: Statws economaidd-gymdeithasol, 2011/12-2016/17	56
Tabl 20: Cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol: Amddifadedd aelwydydd, 2011/12-2016/17	58

---

## Rhestr o Ffigurau

Ffigur 1: Cyswllt Data Carfan Cyfnod Allweddol 4	13
Ffigur 2: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a gychwynodd mewn Addysg Uwch yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad	42

# Crynodeb

- Sefydlodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, corff newydd sy'n cael ei noddi gan Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am strategaeth, cyllid a goruchwyliaeth ar draws y sector addysg drydyddol. Mae hyn yn uno systemau llywodraethu a arferai fod ar wahân ar gyfer Chweched Dosbarth, Addysg Bellach ac Addysg Uwch mewn model llywodraethu trydyddol cyfannol. Yn atebol i Lywodraeth Cymru, mae gan Medr ddyletswydd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y sector addysg drydyddol yng Nghymru.
- Comisiynodd Llywodraeth Cymru'r adroddiad hwn i ddarparu tystiolaeth ar gyfranogiad addysg drydyddol ymysg dysgwyr sydd â nodweddion gwarchoddedig.
- Mae'r adroddiad hwn yn edrych ar gyfranogiad, dilyniant a diffyg dilyniant mewn addysg drydyddol yng Nghymru rhwng 2011/12 a 2018/19 gan ganolbwyntio ar nodweddion cydraddoldeb dysgwyr a'u haelwydydd, gan gynnwys mesurau amddifadedd a chefnidir economaidd-gymdeithasol. Mae hefyd yn ystyried cyrhaeddiad addysgol dysgwyr mewn lleoliadau trydyddol yn ôl nodweddion amrywiol.
- Mae dadansoddiad yn dangos bod rhai grwpiau o ddysgwyr wedi'u gorgynrychioli neu eu tan-gynrychioli mewn lleoliadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, ac ar fathau penodol o raglenni.
- Roedd gan ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is ac amddifadedd lluosog, yn ogystal â'r rheini ag anableddau cyfyngus a dysgwyr gyda statws Angen Addysgol Arbennig hysbys, gyfraddau cyfranogiad uwch mewn dysgu galwedigaethol a dysgu seiliedig ar waith a chyfraddau cyrhaeddiad is.
- Roedd anghydraddoldeb yn ymddangos yn llai amlwg mewn lleoliadau addysg uwch, ond mae hyn yn debygol o fod oherwydd y dewisiadau a'r rhwystrau a wynebwyd pan yn iau.
- Mae dau argymhelliad allweddol yn cael eu gwneud yn yr adroddiad:
  1. Wrth symud ymlaen, dylai polisïau anghydraddoldeb ganolbwyntio ar gefndir economaidd-gymdeithasol, amddifadedd, ynghyd ag iechyd dysgwyr, yn hytrach na chanolbwyntio ar ddangosyddion economaidd yn unig.
  2. Dylai Medr geisio alinio a gwella'r potensial ar gyfer systemau llywodraethu a data cyfannol y gellir eu cymharu er mwyn gallu integreiddio a dadansoddi'r sector addysg drydyddol ymhellach yn y dyfodol.

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn dadansoddi cofrestrïadau a dilyniant drwy addysg drydyddol yng Nghymru gan ddefnyddio data gweinyddol cysylltiedig. Gwnaethom archwilio graddfa a natur cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru cyn y pandemig COVID-19, gan ystyried nodweddion personol a chefnidir dysgwyr.**

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn canolbwyntio ar ddiwygio addysg drydyddol yng Nghymru yn dilyn argymhellion ar gyfer gwell goruchwyliaeth o addysg drydyddol (Hazelkorn, 2016), a chyllid Addysg Uwch (Diamond, 2016). Yn 2022, cafodd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) ei deddfu i lunio'r sylfeini ar gyfer newidiadau sylweddol yn y sector addysg drydyddol. Roedd y Ddeddf yn braenaru'r tir ar gyfer Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd a sefydlwyd yn 2024, sy'n gyfrifol am oruchwyllo addysg a hyfforddiant ôl-orfodol (gan gynnwys Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach) ac Addysg Uwch, gan Lywodraeth Cymru.

Nod Llywodraeth Cymru yw i Medr fod yn 'rhagweithiol o ran sicrhau mynediad mwy teg i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol' (Llywodraeth Cymru, 2020). Ond, mae archwilio anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig â mynediad a dilyniant drwy addysg drydyddol yng Nghymru mewn ffordd integredig wedi bod yn heriol. Mae data wedi'i gasglu'n ysbeidiol ar ymgysylltu ag addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, bwriad i astudio, a'r rhesymau dros astudio drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Mae data gweinyddol gan StatsCymru yn darparu gwybodaeth yn amlach fel mater o drefn am boblogaeth dysgwyr sydd wedi'u cofrestru mewn lleoliadau Addysg Bellach<sup>1</sup> a lleoliadau Chweched Dosbarth<sup>2</sup>. Ond, mae'r mesurau hyn yn deillio o systemau casglu data gwahanol ac yn defnyddio gwahanol fethodolegau, gan ei gwneud yn anodd cymharu cyfranogiad a chanlyniadau dysgwyr mewn ffordd ystyrlon.

Mae'r anawsterau hyn wedi cael eu datrys yn rhannol gan 'Hynt Disgyblion', arolwg blynyddol o'r rheini sy'n gadael yr ysgol sy'n cael ei gynnal gan Gyrfa Cymru ar ran Llywodraeth Cymru i gasglu data am hynt disgyblion o bob ysgol a gynhelir ac ysgol anghenion arbennig sydd ar oedran gadael yr ysgol neu'n hŷn na hynny<sup>3</sup>.

<sup>1</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Further-Education>

<sup>2</sup> <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census>

<sup>3</sup> <https://gyrfacymru.llyw.cymru/athrawon-a-gweithwyr-proffesiynol-addysg/hynt-disgyblion>



Er bod yr arolwg yn cynnig darlun mwy cyflawn o hynt carfanau cyfan o ddysgwyr Blwyddyn 11, nid yw'n darparu llawer o wybodaeth am yr hyn y mae'r dysgwyr hyn yn mynd ymlaen i'w astudio na'u perfformiad dilynol. Ar ben hynny, mae dadansoddiad segmentu i archwilio amrywiad mewn hynt ar draws is-grwpiau poblogaeth wedi'i gyfyngu i rywedd ac ethnigrwydd.

Mae pwysigrwydd mesurau perfformiad ôl-16 cyson wedi cael ei gydnabod ers tro gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2018). Ers 2018, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r gyfres Mesurau Perfformiad Cyson ar gyfer Dysgu ôl-16 (Cyflawniad)<sup>4</sup>. Mae'r cyhoeddiad blynyddol hwn yn cyflwyno canlyniadau'r rheini sy'n ymgymryd ag addysg gyffredinol a galwedigaethol (gan gynnwys Bagloriaeth Cymru) mewn Chweched Dosbarth a cholegau Addysg Bellach. Mae'r canlyniadau hyn yn cynnwys lefelau cyrhaeddiad a chyfraddau cwblhau, gyda dadansoddiadau'n cael eu cyflwyno yn ôl rhywedd, oedran, ethnigrwydd ac amddifadedd. Mae hynt y dysgwyr hyn (h.y. beth mae dysgwr yn symud ymlaen i'w wneud ar ôl gadael rhaglen ddysgu) yn cael ei harchwilio yn y Mesurau Perfformiad Cyson ar gyfer Dysgu ôl-16: Hynt Dysgwyr<sup>5</sup>. Ar sail y data Canlyniadau Addysg Hydredol, mae'r dadansoddiadau hyn yn adrodd ar gyfran y dysgwyr sy'n mynd i gyflogaeth barhaus, dysgu parhaus, neu gyrchfannau parhaus (naill ai cyflogaeth neu ddysgu).

Un o gyfyngiadau'r dadansoddiadau hyn yw bod dysgwyr ôl-16 yn cael eu diffinio fel y rheini sy'n astudio mewn sefydliadau addysg bellach, Chweched Dosbarth mewn ysgolion, ac mewn dysgu seiliedig ar waith (Dysgu Seiliedig ar Waith; prentisiaethau, hyfforddiant, a rhaglenni cyflogadwyedd eraill). O ganlyniad, nid yw'r cyhoeddiadau hyn yn archwilio sut mae'r math a'r lefel o gymhwyster sy'n cael ei gyflawni a nodweddion dysgwyr yn amrywio rhwng lleoliadau Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach. Er enghraifft, a yw nodweddion y rheini sydd wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch mewn lleoliadau Chweched Dosbarth yn wahanol i'r rhai sy'n ymgymryd â'r cymwysterau hyn mewn colegau Addysg Bellach? Felly, mae angen o hyd i gael gwell dealltwriaeth gyfannol o lwybrau'r holl ddisgyblion Blwyddyn 11 o ysgolion a gynhelir sy'n mynd i addysg drydyddol.

Mae'r adroddiad hwn yn cyfuno nifer o ffynonellau data gweinyddol ar ddysgwyr i archwilio cyfranogiad mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru ar draws y boblogaeth drydyddol, gan ddatgelu annhegwch posibl yn y cyfnod cyn COVID, hyd at 2018/19.

<sup>4</sup> <https://www.llyw.cymru/mesurau-perfformiad-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-cyflawniad>

<sup>5</sup> <https://www.llyw.cymru/mesurau-perfformiad-cyson-ar-gyfer-dysgu-ol-16-cyrchfannau-dysgwyr>

## Cwestiynau'r adolygiad

Wrth gomisiynu'r ymchwil hwn, nododd Llywodraeth Cymru ddiddordeb penodol mewn pedwar prif gwestiwn:

**1** Beth yw'r cyfrannau o ddisgyblion/myfyrwyr neu brentisiaid dros 16 oed mewn sefydliadau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru gan gyfeirio at bob un o'r categorïau gwarchoddedig canlynol? Rhywedd, oedran, ethnigrwydd, anabledd, gallu yn y Gymraeg, rhywioldeb, statws economaidd-gymdeithasol, cenedligrwydd, cyfrifoldebau gofal plant, cyflawniadau addysgol rhieni, a galwedigaeth rhieni.

**2** Sut mae'r cyfrannau o ddisgyblion, myfyrwyr neu brentisiaid ym mhob un o'r categorïau hyn yn cymharu â'r cyfrannau yn y poblogaethau cymharol lleol a/neu genedlaethol perthnasol?

**3** Pa gamau, os o gwbl, y gellid eu cymryd i ddiwygio a/neu ymestyn y gofynion sy'n cael eu gosod ar sefydliadau i annog gwahanol batrymau mynediad, cyfranogiad, dilyniant, cyflawniad a chanlyniadau? Sut gallai'r gweithgareddau hyn hyrwyddo dyletswydd neu ddyhead cyffredinol i ddarparu cyfleoedd teg i ddisgyblion, myfyrwyr a phrentisiaid mewn Addysg Bellach, Addysg Uwch, darparwyr prentisiaethau, Chweched Dosbarth, a chanolfannau dysgu i oedolion?

**4** Pa wersi y mae modd eu dysgu gan wledydd eraill y DU ac Iwerddon ynglŷn â'r ffordd orau o gefnogi a gwella recriwtio, dilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn system addysg drydyddol Cymru?

Yn yr adroddiad hwn, rydym yn mynd i'r afael â chwestiynau ymchwil 1 a 2, gan ddefnyddio data addysg weinyddol Cymru a data Cyfrifiad 2011 y DU. Rydym yn archwilio graddfa a natur cyfranogiad mewn addysg drydyddol yng Nghymru gan ystyried nodweddion personol a chefnidir dysgwyr i ddarparu sylfaen dystiolaeth y gall Medr ei defnyddio i lywio strategaethau yn y dyfodol. Ar ben hynny, rydym yn ystyried patrymau sy'n ymwneud â dilyniant o'r ysgol i'r Chweched Dosbarth, Addysg Bellach, neu Addysg Uwch, yn ogystal â diffyg dilyniant, ac yn ystyried ennill cymwysterau. Mae hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth i ni o lwybrau presennol dysgwyr mewn lleoliadau addysg drydyddol.

# Data a Dulliau

## **Rydym yn defnyddio data gweinyddol Cymru ar ddisgyblion a dysgwyr mewn ysgolion cyhoeddus a gynhelir yng Nghymru, Chweched Dosbarth, Addysg Bellach ac Addysg Uwch hyd at 2018/19.**

Mae data Chweched Dosbarth a Cholegau Addysg Bellach yn cael ei gyflwyno ar wahân i Lywodraeth Cymru. Mae data Chweched Dosbarth yn cael ei gasglu drwy'r Casgliad Data Ôl-16 (y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ôl-16 yn flaenorol). Mae data Addysg Bellach, gan gynnwys Dysgu Seiliedig ar Waith, yn cael ei gofnodi drwy gasglu data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Mae data Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru yn cael ei gasglu ar sail dreigl, 'byw', tra bod data Chweched Dosbarth wedi cael ei ddarparu ar sawl pwynt cyfrifiad mewn blwyddyn (data'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ôl-16) tan 2013/14 ac wedi cael ei gasglu'n ôl-weithredol ar ddiwedd y flwyddyn academaidd yn y Casgliad Data Ôl-16 ers 2013/14. Rydym yn cyfeirio at y setiau data Chweched Dosbarth hyn fel y data Ôl-16. Mae cyfranogiad dilynol mewn Addysg Uwch yn cael ei gofnodi mewn data o gofnodion myfyrwyr sy'n cael eu cadw gan yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch.

Ar gyfer ein dadansoddiadau, gwnaethom gysylltu data ar garfannau olynol o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 o Gyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Casgliad Data Cenedlaethol Cymru (Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion gynt) â data ôl-16 o'r Casgliad Data Ôl-16 a Chofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Drwy gysylltu'r cofnodion gweinyddol hyn, roeddem yn gallu adnabod dysgwyr a symudodd i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar ôl diwedd Cyfnod Allweddol 4. Mae'r symudiadau hyn yn cynnwys y rheini sydd naill ai'n aros mewn Chweched Dosbarth a gynhelir neu sydd wedi symud i ddarpariaeth Addysg Bellach, gan gynnwys y rheini sydd wedi'u cofrestru ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith (sydd hefyd yn cael eu cofnodi gan Dysgu Gydol Oes Cymru). Nid yw'r set ddata hon yn cynnwys data am ddysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref neu mewn ysgolion preifat. Mae data ar addysg breifat yn gyfyngedig ac nid yw ar gael ar lefel unigol ar hyn o bryd. Nid oes cronfa ddata ganolog, hygyrch ar gyfer dysgwyr sy'n cael eu haddysgu gartref.

Yn ogystal â chysylltu setiau data addysgol, gwnaethom gysylltu data o Gyfrifiad 2011 i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am nodweddion personol a nodweddion teulu/aelwyd dysgwyr sydd ddim yn cael eu cofnodi mewn cofnodion addysgol sy'n cael eu casglu'n rheolaidd. Ymysg dysgwyr iau, mae argaeledd data Cyfrifiad 2011 yn caniatáu i ni ystyried patrymau mynediad, ymadael, a dilyniant drwy sector addysg drydyddol Cymru yn ôl amrywiaeth o nodweddion cefndir, fel dosbarth cymdeithasol aelwydydd a chyrhaeddiad

addysgol rhieni<sup>6</sup>, yn ogystal â nodweddion personol ychwanegol sydd ddim wedi'u cynnwys yng Nghyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Casgliad Data Cenedlaethol Cymru Er ei fod yn ymwneud â phwynt penodol o amser (cynhaliwyd Cyfrifiad 2011 ar 27 Mawrth 2011), mae manteision cysylltu â data'r Cyfrifiad i ddarparu gwybodaeth gefndir ar gyfer deall canlyniadau dilynol wedi'u sefydlu'n glir drwy Astudiaethau Hydredol sy'n seiliedig ar Gyfrifiad y DU<sup>7</sup>.

Mae'r dadansoddiad yma yn rhoi archwiliad manwl o gyfranogiad mewn addysg a gynhelir, sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus, yn ôl nodweddion cydraddoldeb amrywiol. Gwnaethom ddadansoddiad disgrifiadol o faint cyfranogiad mewn addysg drydyddol gan ddefnyddio dau ddull: dull carfan a dull poblogaeth. Mae'r dull carfan yn caniatáu i ni ystyried y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan garfannau olynol o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 drwy'r system addysg drydyddol, gan ganolbwyntio ar y newidiadau deinamig sy'n cael eu gwneud gan grwpiau iau o ddysgwyr. Mae'r dull poblogaeth yn caniatáu i ni archwilio, er yn llai manwl, nodweddion pob dysgwr o fewn y system addysg drydyddol.

## Y Dull Carfan

Yn gyntaf, rydym yn ystyried dilyniant o Gyfnod Allweddol 4 (blwyddyn olaf addysg orfodol yng Nghymru, Blwyddyn 11) i Addysg Uwch gan ddefnyddio data carfanau cyfun. I gyflawni hyn, gwnaethom greu ffeil ddata yn cysylltu cofnodion gweinyddol disgyblion o Gyfnod Allweddol 4 i ddata addysg ôl-16 o gofnodion dysgwyr chweched dosbarth a cholegau Addysg Bellach. Cafodd y data addysg hefyd ei gysylltu â Chyfrifiad y DU 2011 i ehangu'r potensial ar gyfer archwilio cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn ôl nodweddion personol, aelwyd a theulu ychwanegol sydd ar gael am y dysgwyr hynny y gellid gweld eu bod yn byw yng Nghymru adeg Cyfrifiad 2011. Cysylltwyd y data hwn wedyn â data Addysg Uwch ar gyfer myfyrwyr (gweler Ffigur 1) a aeth ymlaen i'r brifysgol. Rydym yn cyfeirio at y set ddata gysylltiedig hon fel ein 'data carfan'.


Mae'r data carfan yn defnyddio gwybodaeth am ddysgwyr a gwblhaodd Gyfnod Allweddol 4 rhwng 2011/12 a 2016/17 mewn ysgolion a gynhelir yn gyhoeddus. Mae cynrychiolaeth syml o lwybrau addysg y garfan i'w weld yn Nhabl 1<sup>8</sup>. Mae data wedi'i gyfyngu i ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 hyd at 2016/17 er mwyn i ni allu ystyried llwybrau hydredol ar gyfer pum carfan a allai symud ymlaen i Addysg Bellach ac Addysg Uwch o fewn y cyfnod amser sy'n cael ei gwmpasu gan y data sydd ar gael, hyd at 2018/19. Roedd ein set ddata gysylltiedig derfynol yn cynnwys 196,240 o ddysgwyr ar draws y chwe charfan Cyfnod Allweddol 4, ac rydym yn dilyn pump ohonynt tan Addysg Uwch.

<sup>6</sup> Gwnaethom ddefnyddio data gweinyddol dienw, a oedd ar gael drwy'r Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (Jones, Ford, Thompson a Lyons, 2019). Cynhaliwyd yr ymchwil gyda chefnogaeth Ymchwil Data Gweinyddol Cymru fel rhan o'i raglen ymchwil ar Sgiliau a Chyflogadwyedd (cyfeirnod y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol: ES/W012227/1). Cymeradwywyd y gwaith hwn gan Weithdrefn Llywodraethu Gwybodaeth Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (Rhif Prosiect 0967). Mae'r holl allbynnau'n dilyn canllawiau rheoli datgeliadau Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw ac Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch.

<sup>7</sup> <https://calls.ac.uk>

<sup>8</sup> Yn ymarferol, gall llwybrau rhai myfyrwyr fod yn fwy cymhleth a gallent gynnwys blynyddoedd bwllch neu flynyddoedd ychwanegol sy'n cael eu treulio yng Nghyfnod Allweddol 5 i ailsefyll arholiadau.

**Ffigur 1: Cyswllt Data Carfan Cyfnod Allweddol 4**



**Tabl 1: Llwybrau Carfan Cyfnod Allweddol 4, 2011/12-2016/17**

Carfan	Blwyddyn Academaidd					
	2011/12	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
<b>A</b>	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13	Addysg Uwch Blwyddyn 1	Addysg Uwch Blwyddyn 2	Addysg Uwch Blwyddyn 3
<b>B</b>	-	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12	Year 13	Addysg Uwch Blwyddyn 1	Addysg Uwch Blwyddyn 2
<b>C</b>	-	-	Blwyddyn 11	Year 12	Blwyddyn 13	Addysg Uwch Blwyddyn 1
<b>D</b>	-	-	-	Year 11	Blwyddyn 12	Blwyddyn 13
<b>E</b>	-	-	-	-	Blwyddyn 11	Blwyddyn 12

Sylwch: Mae Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13 yn cynnwys Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach.

## Y Dull Poblogaeth

Mae ein hail ddull yn ystyried y boblogaeth gyfan o ddysgwyr ôl-16 mewn Chweched Dosbarth, Addysg Bellach, ac Addysg Uwch. Roedd y data poblogaeth yn cynnwys cofnodion 80,930 o ddysgwyr Chweched Dosbarth, 528,010 o ddysgwyr Addysg Bellach (roedd 133,140 ohonynt yn ymgymryd â Dysgu Seiliedig ar Waith) a 255,145 o ddysgwyr Addysg Uwch, rhwng 2014/15 a 2018/19.

Cafodd y cofnodion hyn hefyd eu cysylltu â Chyfrifiad 2011 y DU i ddarparu rhagor o wybodaeth ddemograffig a chefnidir bersonol. Yma, ni wnaethom gyfyngu ein dadansoddiad i ddim ond dysgwyr iau y gallwn eu holrhain drwy'r system addysg drydyddol (fel yn y data carfan). Yn hytrach, mae'r dadansoddiad o'r boblogaeth hefyd yn cynnwys dysgwyr sy'n oedolion a dysgwyr sydd â bwlch yn eu taith addysg. Mae grwpiau eraill yn y dadansoddiad poblogaeth yn cynnwys dysgwyr sy'n symud i'r system addysg ôl-orfodol o addysg sydd ddim yn cael ei hariannu gan y wladwriaeth. Byddwn yn cyfeirio at y set ddata hon fel y 'data poblogaeth' yma.

## Cyflwyno'r Canlyniadau

Rydym yn defnyddio dadansoddiad disgrifiadol i archwilio dilyniant drwy addysg drydyddol yn ôl nodweddion amrywiol<sup>9</sup>. O ran symud ymlaen o Gyfnod Allweddol 4 i leoliadau Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, roedd y mesurau allweddol canlynol o ddiddordeb:

### a. Wedi Cofrestru yn y Chweched Dosbarth;

### b. Wedi Cofrestru mewn Addysg Bellach;

### c. Wedi Cofrestru mewn Addysg Bellach a Chweched Dosbarth; a

### d. Ddim yn y Chweched Dosbarth nac Addysg Bellach.

Gellid tybio bod cofrestru yn y Chweched Dosbarth yn dangos bod dysgwyr yn fwy tebygol o ddilyn cymwysterau sy'n arwain at barhau i astudio i Addysg Uwch ac sy'n debygol o fod yn astudio ar gyfer Safon Uwch. Ar y llaw arall, gellid ystyried bod cofrestru mewn Addysg Bellach yn arwydd bod llwybr mwy 'galwedigaethol' yn cael ei ddilyn. Fodd bynnag, yng Nghymru, mae cyfran fawr o ddarpariaeth Safon Uwch yn digwydd mewn colegau Addysg Bellach. Mae hyn yn bennaf oherwydd mabwysiadu model lle mae'r holl ddarpariaeth addysg i bobl ifanc 16-19 oed yn cael ei darparu gan y coleg Addysg Bellach lleol mewn rhai ardaloedd lleol yng Nghymru, fel Merthyr Tudful.

<sup>9</sup> Rhaid cyflwyno'r holl ddata yn unol â chytundebau rheoli datgelu, felly cafodd niferoedd y dysgwyr a gofnodwyd eu talgrynnu yn unol â gofynion yr Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch.

Mae rhai dysgwyr yn cael eu harsylwi yn y Chweched Dosbarth ac mewn Addysg Bellach. Efallai bod angen gwneud hyn er mwyn ymgymryd â phynciau gwahanol mewn gwahanol sefydliadau yn dibynnu ar y cynnig dysgu. Neu, efallai fod dysgwyr wedi symud rhwng mathau o sefydliadau mewn blwyddyn benodol. Mae'r categori terfynol 'ddim mewn Chweched Dosbarth nac Addysg Bellach' yn nodi na fu'n bosibl adnabod disgybl Blwyddyn 11 fel un a oedd yn ymddangos wedyn yn y data Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach. Gallai'r grŵp hwn gynnwys disgyblion sydd yn y categori NEET ('Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth nac hyfforddiant'), dysgwyr sy'n ymgymryd ag AHO yn Lloegr, y rheini a symudodd i ddarpariaeth annibynnol, neu'r rheini sydd wedi gadael Cymru'n gyfan gwbl. Rydym yn cyfeirio at y grŵp hwn fel Ddim mewn Addysg nac Hyfforddiant yn y sector trydyddol a gynhelir yng Nghymru. Felly, gallai'r grŵp hwn o ddisgyblion fod yn gymysg iawn o ran eu hymgysylltiad parhaus ag addysg neu hyfforddiant. Bydd dadansoddiad empirig yn datgelu prif nodweddion y grŵp hwn.

Mae'r math o raglenni sy'n cael eu hastudio gan ddysgwyr, rhwng 16 a 19 oed fel arfer, yn amrywiol. Rydym i raddau helaeth yn gwahaniaethu rhwng y pedwar prif gategori canlynol o raglenni<sup>10</sup>:

#### **a. Astudio Safon Uwch Gyfrannol;**

#### **b. Astudio Safon Uwch<sup>11</sup>;**

#### **c. Astudio rhaglenni galwedigaethol; ac**

#### **d. Ymgymryd â Dysgu Seiliedig ar Waith.**

Mae Dysgu Seiliedig ar Waith yn cynnwys cymwysterau hyfforddi a phrentisiaethau ar amrywiaeth o lefelau. Ar ben isaf y sbectrwm cymwysterau, mae hyfforddiant ymgysylltu yn darparu rhaglenni lefel mynediad sydd yn aml wedi'u cynllunio i ymgysylltu â'r rheini sydd â chyrhaeddiad blaenorol isel. Yn y pen uchaf, gall prentisiaethau uwch fod ar lefel Sgil 4 neu 5, gan gynnig hyfforddiant arbenigol sy'n cyfateb i radd sylfaen neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch. Oherwydd y nifer isel o ddysgwyr iau sy'n ymgymryd â'r lefelau uchaf o brentisiaethau, roedd angen cyfuno'r holl brentisiaethau a oedd yn cael eu gwneud ar Lefel 3 neu uwch yn y dadansoddiad carfan. Ond, mae'r dadansoddiad o'r boblogaeth yn caniatáu i ni archwilio nodweddion y rheini sy'n ymgymryd â'r ystod lawn o gymwysterau prentisiaeth ar wahân.

<sup>10</sup> Nid ydym yn gosod Bagloriaeth Cymru ar wahân yn ein dadansoddiadau. Mae Bagloriaeth Cymru yn cael ei gynnig i bob dysgwr ôl-16 mewn ysgolion a cholegau addysg bellach ar lefel sy'n briodol iddynt ac mae'n cael ei wneud yn aml ochr yn ochr â chymwysterau academaidd neu alwedigaethol eraill. Felly, mae nodweddion dysgwyr sy'n ymgymryd â naill ai cymwysterau academaidd neu alwedigaethol yn fwy nodedig na'r rhai sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru. Felly, nid ydym yn cynnwys graddau a ddyfarnwyd mewn perthynas â'r Dystysgrif Her Sgiliau fel rhai sy'n cyfrannu at ein mesurau o gyrhaeddiad Safon Uwch. Newidiodd triniaeth Bagloriaeth Cymru o ran dyfarnu graddau hefyd yn ystod y cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn ein dadansoddiadau, gan gyfyngu ar y cyfle i gyfuno data dros sawl blwyddyn.

<sup>11</sup> Rydym wedi defnyddio'r dosbarthiadau a gofnodwyd yn y data addysg ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch ar wahân. Nid ydym wedi grwpio'r cofnodion hyn yn un categori oherwydd efallai mai dim ond ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol y bydd rhai dysgwyr yn cael eu cofrestru.



Ni chafodd cyfranogiad mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned ei archwilio ar wahân yn y dadansoddiad carfan oherwydd oedran a llwybrau addysgol y dysgwyr iau hyn. Yn y dull carfan, mae cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned o fewn categori ehangach o gyrsiau 'Eraill' sy'n cael eu gwneud mewn colegau Addysg Bellach sydd ddim yn dod o dan y categorïau academaidd, galwedigaethol, neu ddysgu seiliedig ar waith. Fodd bynnag, mae dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned wedi'u nodi ar wahân yn y dadansoddiad poblogaeth, sy'n cynnwys yr ystod oedran gyfan o ddysgwyr Addysg Bellach.

Mae'r dadansoddiad hefyd yn archwilio ymgysylltiad mewn Addysg Uwch. Ar gyfer y dadansoddiad carfan, sydd i'w weld yn Nhabl 1, oherwydd argaeledd data, dim ond ar gyfer y dysgwyr hynny a oedd yn eu blwyddyn olaf o addysg orfodol (Cyfnod Allweddol 4 ym Mlwyddyn 11) yn ystod 2011/12 (sy'n cael eu nodi fel Carfan A) y gallem archwilio eu dilyniant i Addysg Uwch. Mae hynny ynddo'i hun yn golygu bod yn rhaid i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach ac i Addysg Uwch heb unrhyw ymyrraeth â'u dysgu (e.e. gorfod ailsefyll arholiadau neu gael blwyddyn i ffwrdd) ac ymgymryd â rhaglen radd mae modd ei chwblhau o fewn tair blynedd. Felly, nid ydym wedi ystyried canlyniadau cyfranogiad mewn Addysg Uwch yn y dadansoddiad carfan oherwydd y darlun anghyflawn y byddai'n ei roi.

Rydym yn ystyried cyrhaeddiad dysgwyr yn y Chweched Dosbarth, Addysg Bellach ac Addysg Uwch yn ein dadansoddiad poblogaeth. Ar gyfer dysgwyr Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, gwnaethom archwilio'r pwyntiau a gafwyd ar lefel Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch<sup>12</sup> a'r gyfran sy'n ennill cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill ar lefel 3 neu uwch. Ar gyfer y rheini sy'n ymgymryd â Dysgu Seiliedig ar Waith, gwnaethom edrych ar gyfraddau pasio ar gyfer hyfforddiant ymgysylltu, hyfforddiant lefel 1, prentisiaethau sylfaen, prentisiaethau, a phrentisiaethau uwch. Ymhlith dysgwyr Addysg Uwch, gwnaethom ystyried cael gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uchaf ar lefel israddedig a'r ganran a wnaeth basio ar lefel ôl-raddedig.

Ar gyfer y dadansoddiad carfan, lle gallwn ddefnyddio data nodweddiol Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Casgliad Data Cenedlaethol Cymru ar gyfer Cyfnod Allweddol 4, rydym yn gallu ystyried amrywiadau mewn cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn ôl rhyw, statws Prydau Ysgol am Ddim, sgiliau Cymraeg, ethnigrwydd ac Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Rydym yn cydnabod nad AAA yw'r derminoleg sy'n cael ei ffafrio mwyach a'i fod wedi cael ei ddisodli gan Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)<sup>13</sup>. Fodd bynnag, rydym yn parhau i ddefnyddio AAA yn yr adroddiad hwn i adlewyrchu'n gywir y data a ddefnyddiwyd, a gasglwyd cyn y newidiadau hyn.

<sup>12</sup> Rydym yn dyrannu pwyntiau ar gyfer graddau Lefel A fel a ganlyn: A\*=300, A=270, B=240, C=210, D=180, E=150. Rydym yn cymryd bod Lefelau AS gyfwerth â hanner y pwyntiau hyn.

<sup>13</sup> Mae gwybodaeth am y newid i ADY ar gael yn: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/additional-learning-needs-aln-transformation-programme-v3.pdf>.



Gallwn hefyd ddefnyddio gwybodaeth am nodweddion y disgyblion hyn a gasglwyd o Gyfrifiad 2011 y DU a gynhaliwyd ar 27 Mawrth 2011. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys statws amddifadedd aelwydydd (cyfrif sy'n ddeilliedig o amddifadedd aelwydydd ar draws meysydd amddifadedd addysg, cyflogaeth, tai ac iechyd)<sup>14</sup>; safle economaidd-gymdeithasol yr aelwyd fel y'i nodwyd yn Nosbarthiad Economaidd-gymdeithasol yr Ystadegau Gwladol (NS-SEC) a neilltuwyd i'r pen teulu<sup>15</sup>; galwedigaeth rhieni fel y'i cofnodwyd yn y Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol; a chyrrhaeddiad addysgol rhieni/gofalwyr.

Mae'r nodweddion personol ychwanegol sy'n cael eu casglu gan y Cyfrifiad yn cynnwys oedran<sup>16</sup>, gallu yn y Gymraeg, anabledd, gwlad tarddiad, crefydd a chyfrifoldebau gofalu. O ran chyfrifoldebau gofalu, gofynnwyd i'r rheini wnaeth ymateb i'r Cyfrifiad a oeddent yn gofalu am aelodau o'r teulu oherwydd problemau sy'n ymwneud ag afiechyd, anabledd neu henaint. Oherwydd y nifer cymharol fach o ddysgwyr ifanc sydd â chyfrifoldebau gofalu, dim ond yn y dadansoddiad poblogaeth yr ydym yn edrych ar y mater hwn.

Wrth gynnal yr adroddiad hwn, gwnaethom ymdrechu i gynnwys yr holl nodweddion a nodwyd yng nghwestiynau ymchwil Llywodraeth Cymru. Un diffyg pwysig yw rhywioldeb na chafodd ei gasglu yn y data addysg nac yng Nghyfrifiad 2011<sup>17</sup>.

<sup>14</sup> Mae Cyfrifiad 2011 y DU yn cynnwys pedwar mesur amddifadedd: addysg, cyflogaeth, tai ac iechyd; yn ogystal â chyfrif o'r mesurau hyn. Mae'r rhain yn cael eu creu gan dimau Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae gwybodaeth am y mesurau hyn ar gael yn '2011 Census Variable and Classification Information: Part 4' yma: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-user-guide/information-by-variable/part-4--derived-variables.pdf> Rydym yn defnyddio newidyn y cyfrif yn y dadansoddiad carfan a'r mesurau ar wahân ar gyfer y dadansoddiad poblogaeth.

<sup>15</sup> Mae'n cael ei alw'n Berson Cyswllt y Cartref gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Dyma'r sawl sy'n gyfrifol am yr eiddo. Yn achos cyd-ddeiliaid, yn ddiodyn dyma' person sydd â'r enillion uchaf. I ddysgwyr iau, mae statws economaidd-gymdeithasol felly'n debygol o adlewyrchu sefyllfa gyflogaeth eu rhieni ac, yn bennaf, eu tadau.


<sup>16</sup> Mae'r Cyfrifiad yn cofnodi oedran ym mis Mawrth 2011. Gwnaethom ddefnyddio hyn i bennu oedran y mis Mawrth cyn arsylwi'r dysgwyr yn dilyn cyrsiau mewn addysg drydyddol.

<sup>17</sup> Cesglir data ar gyfeiriadedd rhywiol drwy ddata'r Awdurdod Ystadegau Addysg Uwch. Fodd bynnag, yng nghydestun yr adroddiad hwn, ni fyddem yn gallu gweld sut mae cyfeiriadedd rhywiol ymhlith myfyrwyr Addysg Uwch yn cymharu â rhannau eraill o'r sector addysg drydyddol neu'r boblogaeth ehangach.

# Dadansoddiad Carfan

## Dilyniant a diffyg dilyniant i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach

Ymysg y disgyblion yn ein carfanau, yn y flwyddyn ar ôl cwblhau Cyfnod Allweddol 4:



Mae'r amcangyfrifon hyn yn cyd-fynd ag ystadegau ar gyfer cyrchfannau dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 2014/15 yn ystod 2015/16 a gynhrychwyd gan Lywodraeth Cymru<sup>18</sup>. Datgelodd yr amcangyfrifon hyn fod cyfran y disgyblion a ymunodd â'r Chweched Dosbarth yn 42%, a bod y gyfran a ymunodd ag Addysg Bellach a/neu Ddysgu Seiliedig ar Waith yn 48% (Llywodraeth Cymru, 2017). Yn yr adrannau canlynol, rydym yn ystyried dilyniant a diffyg dilyniant yn ôl nodweddion personol a chefnidrol amrywiol.

### Rhywedd

Er mwyn asesu'r tebygolrwydd o beidio â symud ymlaen i AHO ar ôl Cyfnod Allweddol 4, rydym yn archwilio cyfran y disgyblion sydd â nodweddion penodol sydd ddim yn symud ymlaen i leoliadau Chweched Dosbarth nac Addysg Bellach. Mae Tabl 2 yn dangos nad oedd cyfran ychydig yn uwch o fechgyn (8%) wedi symud ymlaen i Addysg Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach yng Nghymru o'i gymharu â merched (5%), gan eu categorio fel unigolion sydd 'Ddim mewn Addysg nac Hyfforddiant'. Roedd cyfran uwch o ferched wedi mynychu Chweched Dosbarth (37%) na bechgyn (30%). Ar y llaw arall, roedd bechgyn yn fwy tebygol o symud ymlaen i addysg bellach (53%) o'i gymharu â menywod (47%).

<sup>18</sup> <https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/171214-educational-destinations-key-stage-4-post-16-learners-2014-15-en.pdf>

## Statws prydau ysgol am ddim

---

Roedd y gwahaniaeth mewn cyfraddau Ddim mewn Addysg nac Hyfforddiant rhwng dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim a'r rhai oedd ddim yn eu cael yn gymharol isel (3%), gyda 9% o ddisgyblion oedd yn cael prydau ysgol am ddim heb eu harsylwi yn AHO o'i gymharu â 6% o ddisgyblion oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim. Roedd gan ddysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim gyfraddau cyfranogiad is yn y Chweched Dosbarth (15%) na dysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim (37%). Roedd dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o symud ymlaen i addysg bellach (67%) o'i gymharu â dysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim (47%). Gallai hyn adlewyrchu'r amrywiaeth yn y ddarpariaeth sydd ar gael rhwng ardaloedd incwm isel ac uchel yng Nghymru neu'r mathau o gyrsiau a wneir gan y rheini oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 4.

## Sgiliau Cymraeg

---

Siaradwyr Cymraeg rhugl oedd â'r gyfran isaf o ddysgwyr a oedd Ddim mewn Addysg nac Hyfforddiant (4%). Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl yn fwy tebygol o gofrestru yn y Chweched Dosbarth (45%) o'i gymharu â dysgwyr oedd â rhywfaint neu ddim sgiliau Cymraeg (30%).

## Statws AAA

---

O edrych ar y gwahanol ddsbarthiadau AAA, gwelwn fod cyfran uwch o ddysgwyr Datganiad AAA (21%) a dysgwyr Gweithredu a Mwy (12%) heb symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach. Dysgwyr AAA (rhwng 9% a 15%) oedd â'r cyfrannau isaf yn symud ymlaen i leoliadau Chweched Dosbarth. Roedd dysgwyr â diagnosis AAA yn cael eu canfod yn amlach mewn colegau AB (rhwng 66% a 73%) o'i gymharu â dysgwyr heb AAA (46%).

## Ethnigrwydd

---

Dysgwyr Gwyn sydd ddim yn Brydeinig oedd y mwyaf tebygol o gael eu cofnodi fel dysgwyr sydd Ddim Mewn Addysg nac Hyfforddiant (10%), tra bod dysgwyr Asiaidd yn dangos y lefelau isaf o ddysgwyr sydd Ddim Mewn Addysg nac Hyfforddiant (5%). Roedd cyfran uwch o ddysgwyr Asiaidd (48%) o'i gymharu â dysgwyr o ethnigrwydd arall wedi symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth. Dysgwyr Gwyn sydd ddim yn Brydeinig oedd y lleiaf tebygol o ymddangos yn y Chweched Dosbarth (29%). Roedd cofrestru yn y Chweched Dosbarth a cholegau Addysg Bellach yn fwy cyffredin ymysg dysgwyr Du (15%) ac Asiaidd (14%).

**Tabl 2: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl nodweddion personol 2011/12–2016/17**

	NET	Chweched Dosbarth	AB	Y ddau	N
<b>Rhywedd</b>					
Merched	5%	37%	47%	11%	95,860
Bechgyn	8%	30%	53%	9%	100,380
<b>Statws prydau ysgol am ddim</b>					
Prydau ysgol am ddim	9%	15%	67%	9%	165,940
Dim prydau ysgol am ddim	6%	37%	47%	10%	30,300
<b>Sgiliau Cymraeg</b>					
Cymraeg rhugl	4%	45%	40%	11%	30,805
Rhywfaint o Gymraeg	7%	30%	54%	9%	76,470
Dim Cymraeg	6%	30%	55%	9%	76,400
Ddim yn gwybod	9%	51%	20%	19%	12,565
<b>Ethnigrwydd</b>					
Gwyn Prydeinig	7%	32%	53%	9%	173,915
Gwyn Arall	10%	29%	54%	7%	3,490
Asiaidd	5%	48%	33%	14%	3,555
Du	8%	38%	40%	15%	1,240
Cymysg	7%	36%	47%	10%	3,730
Arall	7%	41%	39%	13%	1,670
Ddim yn gwybod	8%	32%	52%	8%	1,450
<b>Statws AAA</b>					
Dim AAA	5%	38%	46%	10%	145,740
Cam Gweithredu	8%	15%	70%	7%	23,325
Gweithredu a Mwy	12%	9%	73%	6%	13,590
Datganiad	21%	9%	66%	4%	6,395
<b>Pawb</b>	<b>7%</b>	<b>33%</b>	<b>50%</b>	<b>10%</b>	<b>196,240</b>

**Mae Tabl 3 yn dangos dilyniant dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 i AHO yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol sy'n deillio o Gyfrifiad 2011.**

## **Amddifadedd**

---

Yn 2011, roedd cyfran y dysgwyr yr adroddwyd eu bod Ddim mewn Addysg nac Hyfforddiant yn uwch ymysg y rheini a oedd yn byw mewn aelwydydd sy'n profi sawl math o amddifadedd. Amcangyfrifwyd bod y gyfradd diffyg dilyniant i AHO ddwywaith yn uwch ymhlith dysgwyr a oedd yn byw mewn aelwydydd a nodweddyd gan bob un o'r pedwar math o amddifadedd (10%) o'i gymharu â'r rhai a oedd yn byw mewn aelwydydd nad oeddent yn profi amddifadedd (5%). Roedd y dysgwyr mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o symud ymlaen i Addysg Bellach (66% ar gyfer tri dimensiwn a 69% ar gyfer pedwar dimensiwn) yn hytrach na Chweched Dosbarth (13% ac 16% ar gyfer tri a phedwar dimensiwn yn y drefn honno). Roedd y dilyniant i'r Chweched Dosbarth yn uwch ymysg dysgwyr oedd ddim yn byw mewn aelwydydd difreintiedig yn ystod Cyfrifiad 2011 (43%) ac ar ei isaf ymysg y rheini a oedd yn byw mewn aelwydydd difreintiedig ar draws y pedwar dimensiwn (13%).

## **Statws economaidd-gymdeithasol**

---

Mae'r berthynas rhwng cefndir economaidd-gymdeithasol a diffyg dilyniant i AHO yn llai amlwg. Fodd bynnag, roedd y gyfradd Ddim mewn Addysg nac Hyfforddiant ar ei uchaf (sef 10%) ymhlith y sawl oedd â rhieni neu ofalwyr sydd erioed wedi gweithio neu'n ddi-waith hirdymor (NS-SEC 8). Roedd cyfradd y dilyniant i Addysg Bellach yn uwch ymysg y rheini o grwpiau economaidd-gymdeithasol is (NS-SEC 6, 7, ac 8). Mae'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a chyrhaeddiad cymwysterau is yng Nghyfnod Allweddol 4 yn debygol o ddylanwadu ar y cyfraddau uwch hyn. Mae cyrhaeddiad is yn effeithio ar allu dysgwyr o aelwydydd mwy difreintiedig i ddilyn cymwysterau academaidd mewn lleoliadau Chweched Dosbarth. Roedd cyfraddau cyfranogiad yn y Chweched Dosbarth yn uwch ymysg y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch.

## **Swydd rhiant**

---

Dysgwyr o gartrefi lle mae rhieni'n cael eu cyflogi mewn rolau galwedigaethol uwch, fel rheolwyr (44%), gweithwyr proffesiynol (53%) a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig (45%) oedd â'r cyfraddau uchaf o gyfranogiad yn y Chweched Dosbarth. Roedd cyfraddau cyfranogiad yn y Chweched Dosbarth yn is ymysg dysgwyr y mae eu rhieni'n cael eu cyflogi mewn rolau galwedigaethol sy'n gysylltiedig â lefelau sgiliau a chyrhaeddiad addysgol is. I'r gwrthwyneb, roedd cyfraddau cyfranogiad mewn Addysg Bellach yn uwch ymysg dysgwyr yr oedd eu rhieni'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau sgiliau-is.

## **Cefndir addysgol**

---

Roedd gan ddysgwyr o aelwydydd lle'r oedd gan rieni gyrhaeddiad addysgol uwch (Lefel 4 ac uwch) gyfraddau uwch o ddilyniant i'r Chweched Dosbarth (50%).

**Tabl 3: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad: 2011/12-2016/17**

	NET	6ed Dosbarth	AB	Y ddau	N
<b>Mesur amddifadedd</b>					
Dim amddifadedd	5%	43%	42%	10%	85,955
1 dimensiwn o amddifadedd	6%	30%	53%	10%	48,395
2 ddimensiwn o amddifadedd	7%	22%	60%	10%	23,450
3 dimensiwn o amddifadedd	9%	16%	66%	10%	8,775
4 dimensiwn o amddifadedd	10%	13%	69%	8%	905
<b>Statws economaidd-gymdeithasol (NS-SEC)</b>					
1.1: Rheoli uwch	5%	50%	35%	9%	4,820
1.2: Proffesiynol uwch	6%	56%	29%	9%	13,070
2: Rheoli a phroffesiynol is	5%	45%	40%	10%	36,665
3: Galwedigaethau canolraddol	4%	36%	49%	11%	16,720
4: Cyflogwyr bach ac ar eu liwt eu hunain	8%	36%	46%	10%	22,445
5: Goruchwyllo a thechnegol is	5%	32%	52%	10%	7,880
6: Gwaith lled-ailadroddus	6%	25%	59%	10%	24,745
7: Gwaith ailadroddus	7%	23%	61%	10%	21,710
8: Erioed wedi gweithio/di-waith hirdymor	10%	15%	66%	9%	8,285
9: Myfyrwyr	7%	28%	54%	11%	2,360
<b>Swydd Rhiant (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol)</b>					
1: Rheolwyr	6%	44%	39%	10%	17,195
2: Gweithwyr Proffesiynol	5%	53%	32%	9%	23,315
3: Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiedig	4%	45%	40%	10%	16,085
4: Gweinyddol	4%	37%	48%	11%	12,085
5: Crefftau Medrus	6%	33%	50%	10%	27,170
6: Gwasanaeth Personol	6%	28%	55%	10%	15,855
7: Gwerthiant	6%	25%	59%	10%	10,270
8: Gweithredwyr	6%	27%	57%	10%	18,010
9: Elfennol	7%	23%	60%	10%	20,485
Dim gwybodaeth	12%	13%	66%	9%	4,315
<b>Addysg rhieni</b>					
Dim	9%	19%	63%	9%	26,895
Lefel 1	6%	28%	55%	10%	29,205
Lefel 2	5%	32%	52%	10%	27,690
Prentisiaeth	5%	35%	49%	10%	6,720
Lefel 3	5%	37%	48%	11%	21,395
Lefel 4+	5%	50%	35%	10%	46,185
Arall	6%	31%	52%	11%	6,700
<b>Pawb</b>	6%	35%	49%	10%	100%
<b>N</b>	10,025	58,425	82,230	16,805	167,485

Mae Tabl 4 yn dangos cyfraddau dilyniant i AHO yn ôl nodweddion personol a chefnidir eraill sy'n deillio o Gyfrifiad 2011.

## Rhieni sy'n siarad Cymraeg

---

Roedd y dilyniant i Addysg Bellach ar ei uchaf ymysg dysgwyr heb rieni na gwarcheidwaid sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, roedd dysgwyr mewn aelwydydd Cymraeg eu hiaith yr un mor debygol o fynychu Addysg Bellach neu Chweched Dosbarth (y ddau yn 43%).

## Anabledd

---

Roedd dysgwyr y cofnodwyd bod ganddynt anabledd neu broblemau iechyd hirdymor a oedd yn cyfyngu'n sylweddol ar eu gweithgareddau yn arddangos cyfraddau uwch o ddiffyg dilyniant naill ai i'r Chweched Dosbarth neu i Addysg Bellach (19%) o'i gymharu â dysgwyr heb gyflyrau o'r fath (6%). Mae hyn yn cael ei sbarduno gan y gyfran is o ddysgwyr anabl sy'n mynychu Chweched Dosbarth (16%) yn dilyn Cyfnod Allweddol 4, gan fod y cyfraddau cyfranogiad mewn Addysg Bellach (58%) yn debyg i'r rhai yn y garfan gyfan mewn Addysg Bellach.

## Gwlad enedigol

---

Roedd dysgwyr a anwyd dramor yn fwy tebygol o fynd i'r Chweched Dosbarth (40%) na'r rheini a aned yn y DU (35%). Fodd bynnag, roedd y rheini a anwyd dramor yn llai tebygol o fynd i Addysg Bellach (42%) o'i gymharu â'r rheini a aned yn y DU (49%).

## Crefydd

---

Roedd dysgwyr oedd yn Gristnogion (39%) neu oedd â chefnidir crefyddol arall (47%) yn fwy tebygol o fynychu Chweched Dosbarth o'i gymharu â'r rheini o gefndiroedd anghrefyddol (28%). Roedd dysgwyr o gefndiroedd anghrefyddol yn fwy tebygol o fynd i Addysg Bellach (55%) o'i gymharu â dysgwyr o gefndir Cristnogol (45%) neu gefndir crefyddol arall (32%).

**Tabl 4: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 sy'n symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl nodweddion cefndir personol ac arall: 2011/12–2016/17**

	NET	Chweched Dosbarth	AB	Y ddau	N
<b>Cymraeg ar yr aelwyd</b>					
Dim Rhieni sy'n siarad Cymraeg	6%	33%	51%	10%	132,010
Un Rhiant sy'n siarad Cymraeg	5%	45%	40%	10%	16,945
Dau Riant sy'n siarad Cymraeg	4%	43%	43%	10%	15,755
<b>Anabledd</b>					
Yn gyfyngedig iawn	19%	16%	58%	7%	2,790
Ychydig yn gyfyngedig	9%	22%	59%	10%	5,555
Dim cyfyngiad	6%	36%	49%	10%	159,150
<b>Gwlad y tarddiad</b>					
Y DU	6%	35%	49%	10%	162,455
Y tu allan i'r DU	7%	40%	42%	11%	5,040
<b>Crefydd</b>					
Dim crefydd	7%	28%	55%	10%	64,720
Cristion	6%	39%	45%	10%	86,820
Crefydd nad yw'n Gristnogol	5%	47%	32%	16%	4,195
Heb ei nodi	7%	33%	50%	10%	11,755
<b>Pawb</b>	6%	35%	49%	10%	100%
<b>N</b>	10,025	58,425	82,230	16,805	167,485




# Math o raglen ar draws y Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach

Mae'r adran hon yn ystyried amrywiaeth yn y math o raglenni a oedd yn cael eu hastudio gan ddysgwyr, p'un ai yn y Chweched Dosbarth neu mewn Addysg Bellach yn ystod Blynyddoedd 12 a 13.

Mae amrywiaeth enfawr yn y rhaglenni a'r gweithgareddau y gall dysgwyr chweched dosbarth ac Addysg Bellach ymgymryd â nhw. Er mwyn symleiddio ein dadansoddiad, rydym yn archwilio nodweddion y rheini sy'n ymgymryd â chymwysterau Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch, cymwysterau galwedigaethol, a Dysgu Seiliedig ar Waith. Gellid cofrestru dysgwyr ar draws sawl math o raglen.

Ar gyfer ein carfan a aeth ymlaen i Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach rhwng 2011/12 a 2016/17:



Mae Tabl 5 yn dangos patrymau dilyniant ar draws gwahanol nodweddion personol fel y'u mesurwyd yng Nghyfnod Allweddol 4.

## Rhywedd

O ran rhywedd, roedd cofrestru ar gyrsiau Safon Uwch yn fwy cyffredin ymysg merched (49%) na bechgyn (37%). Roedd cymwysterau galwedigaethol a Dysgu Seiliedig ar Waith yn fwy cyffredin ymysg bechgyn (56% a 23%) na merched (49% a 18%).

<sup>19</sup> Mae'r cyfuniad o ymrestradau ar gyrsiau Safon Uwch Gyfrannol a/neu Safon Uwch yn codi'r ganran sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch i 45%. Mae canlyniadau'r grŵp cyfun hwn yn debycach i'r ffigurau Safon Uwch Gyfrannol na'r ffigurau Safon Uwch. Fodd bynnag, gwnaethom gadw'r cofnodion ar wahân er mwyn peidio â chyfuno'r rhai sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol yn unig â'r rhai sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch lawn. Efallai bod dysgwyr wedi cael eu cyfrif ddwywaith ar draws y grwpiau hyn, a grwpiau eraill yn y dadansoddiad.

## Statws prydau ysgol am ddim

---

Mae dadansoddiad yn dangos bod dysgwyr sydd ddim yn cael prydau ysgol am ddim yn llawer mwy tebygol o symud ymlaen i Safon Uwch Gyfrannol (47%) a Safon Uwch (34%) na dysgwyr sydd yn cael prydau ysgol am ddim (19% ac 11% yn y drefn honno). Roedd gwahaniaethau hefyd yn amlwg o ran cofrestru ar raglenni galwedigaethol, a oedd yn uwch ar gyfer dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim (65%) o'i gymharu â dysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim (50%). Nodwyd cyfranogiad uwch mewn Dysgu Seiliedig ar Waith hefyd ar gyfer dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim (31%) o'i gymharu â dysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim (18%).

## Sgiliau Cymraeg

---

O ran sgiliau Cymraeg, roedd y patrymau'n eithaf tebyg ar draws grwpiau, er bod dysgwyr rhugl yn y Gymraeg yn fwy tebygol o symud ymlaen i Safon Uwch Gyfrannol (48%) o'i gymharu â'r rheini â rhywfaint o sgiliau Cymraeg (40%) neu'r rheini oedd ddim yn gallu siarad Cymraeg (41%). Roedd cyfranogiad dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn is ar gyfer rhaglenni galwedigaethol (48%) a Dysgu Seiliedig ar Waith (17%) nag ar gyfer eu cymheiriaid di-Gymraeg (54% a 22% yn y drefn honno).

## Ethnigrwydd

---

Ar draws y categorïau ethnigrwydd, dysgwyr o gefndiroedd Gwyn-Prydeinig oedd y lleiaf tebygol o symud ymlaen i Safon Uwch Gyfrannol (tua 40%) a Safon Uwch (llai na 30%). Fodd bynnag, roedd y dysgwyr hyn yn fwy tebygol o symud ymlaen i gymwysterau galwedigaethol (dros 50%) a Dysgu Seiliedig ar Waith (21%).

## Statws AAA

---

Roedd dysgwyr â statws AAA hysbys yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru ar raglenni galwedigaethol (dros 60%) a Dysgu Seiliedig ar Waith (rhwng 23 a 36% yn dibynnu ar natur yr AAA). Dysgwyr AAA oedd â'r cyfraddau cyfranogiad cyffredinol isaf.

**Tabl 5: Canran math o raglen AHO dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol 2011/12–2016/17**

	Safon Uwch Gyfrannol	Safon Uwch	Galwedigaethol	Dysgu seiliedig ar waith	N
<b>Rhywedd</b>					
Merched	49%	36%	49%	18%	95,860
Bechgyn	37%	25%	56%	23%	100,380
<b>Statws prydau ysgol am ddim</b>					
Prydau ysgol am ddim	19%	11%	65%	31%	165,940
Dim prydau ysgol am ddim	47%	34%	50%	18%	30,300
<b>Sgiliau Cymraeg</b>					
Cymraeg rhugl	48%	38%	49%	17%	30,805
Rhywfaint o Gymraeg	40%	27%	55%	21%	76,470
Dim Cymraeg	41%	28%	54%	22%	76,400
Ddim yn gwybod	54%	46%	41%	17%	12,565
<b>Ethnigrwydd</b>					
Gwyn Prydeinig	40%	28%	54%	21%	173,915
Gwyn Arall	41%	29%	49%	13%	3,490
Asiaidd	63%	40%	41%	8%	3,555
Du	52%	33%	49%	10%	1,240
Cymysg	50%	34%	46%	15%	3,730
Arall	57%	38%	44%	7%	1,670
Ddim yn gwybod	44%	35%	49%	18%	1,450
<b>Statws AAA</b>					
Dim AAA hysbys	49%	35%	49%	17%	145,740
Cam Gweithredu	17%	11%	69%	31%	23,325
Gweithredu a Mwy	12%	7%	65%	36%	13,590
Datganiad	9%	6%	62%	23%	6,395
<b>Pawb</b>	<b>43%</b>	<b>30%</b>	<b>52%</b>	<b>20%</b>	<b>196,240</b>

## Nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r cyfrifiad

Mae Tabl 6 yn dangos y patrymau amlwg sy'n bodoli o ran symud ymlaen i wahanol fathau o raglenni dysgu yn ôl amddifadedd a statws economaidd-gymdeithasol.

### Amddifadedd

Roedd dysgwyr a oedd yn byw mewn aelwydydd a oedd yn profi sawl math o amddifadedd yn fwy tebygol o fod wedi cofrestru ar raglenni galwedigaethol neu ddysgu seiliedig ar waith. Er enghraifft, ymysg dysgwyr o gefndiroedd oedd ddim yn ddifreintiedig, roedd 16% wedi cofrestru ar gyrsiau Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae hyn tua hanner y gyfradd a welwyd ymysg dysgwyr sy'n byw ar aelwydydd sy'n profi tri neu bedwar math o amddifadedd.

### Statws economaidd-gymdeithasol

Mae gan ddysgwyr o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch gyfraddau uwch o gyfranogiad mewn rhaglenni Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol a chyfraddau is o ddilyniant i raglenni Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae'r bwlch cyfranogiad yn 40% rhwng y dysgwyr lleiaf a'r mwyaf difreintiedig sy'n astudio ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol. Ymysg dysgwyr a oedd yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd y penteulu'n cael ei ddsbarthu fel 'Galwedigaethau Rheoli Uwch' (NS-SEC 1.1), aeth 62% ymlaen i Safon Uwch. Ymysg y rhai a oedd yn byw mewn aelwydydd lle'r oedd y penteulu'n ddi-waith am gyfnod hir neu heb weithio erioed, dim ond 19% aeth ymlaen i Safon Uwch.

### Swydd Rhiant

Roedd dysgwyr mewn aelwydydd lle'r oedd rhieni a gwarcheidwaid yn cael eu cyflogi mewn galwedigaethau a nodweddir gan lefelau uwch o sgiliau a chyrhaeddiad addysgol yn fwy tebygol o ymgymryd â Safon Uwch Gyfrannol (56% ar gyfer Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 1 a 66% ar gyfer Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2) ac roeddent yn llai tebygol o ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol (42% ar gyfer Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 1 a 34% ar gyfer Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2) neu Ddysgu Seiliedig ar Waith (14% ar gyfer Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 1 a 10% ar gyfer Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 2).

**Tabl 6: Canran math o raglen AHO dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad 2011/12-2016/17**

	Lefel AS	Safon Uwch	Galwedigaethol	Dysgu seiliedig ar waith	N
<b>Mesur amddifadedd</b>					
Dim amddifadedd	54%	41%	45%	16%	85,960
1 dimensiwn o amddifadedd	39%	27%	56%	22%	48,395
2 ddimensiwn o amddifadedd	28%	19%	62%	26%	23,450
3 dimensiwn o amddifadedd	20%	13%	67%	31%	8,780
4 dimensiwn o amddifadedd	14%	8%	67%	34%	905
<b>Statws economaidd-gymdeithasol (NS-SEC)</b>					
1.1: Rheoli uwch	5%	50%	35%	9%	4,820
1.2: Proffesiynol uwch	6%	56%	29%	9%	13,070
2: Rheoli a phroffesiynol is	5%	45%	40%	10%	36,665
3: Galwedigaethau canolraddol	4%	36%	49%	11%	16,720
4: Cyflogwyr bach ac ar eu liwt eu hunain	8%	36%	46%	10%	22,445
5: Goruchwylio a thechnegol is	5%	32%	52%	10%	7,880
6: Gwaith lled-ailadroddus	6%	25%	59%	10%	24,745
7: Gwaith ailadroddus	7%	23%	61%	10%	21,710
8: Erioed wedi gweithio/di-waith hirdymor	10%	15%	66%	9%	8,285
9: Myfyrwyr	7%	28%	54%	11%	2,360
<b>Swydd Rhiant (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol)</b>					
1 Rheolwyr	56%	42%	42%	14%	17,195
2 Gweithwyr Proffesiynol	66%	52%	34%	10%	23,315
3 Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiedig	58%	43%	43%	14%	16,085
4 Gweinyddol	50%	36%	50%	18%	12,085
5 Crefftau Medrus	41%	29%	55%	21%	27,170
6 Gwasanaeth Personol	36%	24%	59%	23%	15,855
7 Gwerthiant	33%	22%	60%	24%	10,270
8 Gweithredwyr	35%	24%	61%	24%	18,010
9 Elfennol	29%	19%	63%	26%	20,485
Dim gwybodaeth	16%	10%	64%	33%	4,315
<b>Addysg rhieni</b>					
Dim	23%	15%	64%	30%	26,895
Lefel 1	37%	25%	59%	23%	29,205
Lefel 2	42%	29%	56%	21%	27,690
Prentisiaeth	45%	33%	54%	22%	6,720
Lefel 3	47%	34%	52%	19%	21,395
Lefel 4+	63%	49%	37%	11%	46,185
Arall/ddim yn gwybod	40%	28%	57%	21%	6,700
<b>Pawb</b>	<b>43%</b>	<b>31%</b>	<b>53%</b>	<b>20%</b>	<b>167,495</b>

## Addysg rhieni


Yn yr un modd â chefnidir galwedigaethol, roedd dysgwyr y mae gan eu rhieni/gwarcheidwaid lefelau uwch o gyrhaeddiad addysgol yn fwy tebygol o ymgymryd â Safon Uwch Gyfrannol ac roeddent yn llai tebygol o ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol neu ddysgu seiliedig ar waith. Roedd llai nag un o bob pedwar dysgwr (23%) y cofnodwyd nad oedd gan eu rhieni gymwysterau'n symud ymlaen i Safon Uwch Gyfrannol, o'i gymharu â 63% o'r rheini yr oedd eu rhieni wedi ennill cymhwyster Lefel 4 neu uwch.

## Nodweddion personol a chefnidrol o'r cyfrifiad

**Roedd rhwng 18% a 28% o ddysgwyr â salwch neu anabledd hirdymor yn astudio ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol o'i gymharu â 46% o ddysgwyr heb anableddau cyfyngus.**

O ran nodweddion eraill dysgwyr a gasglwyd gan Gyfrifiad 2011, mae Tabl 7 yn dangos mai'r rheini sydd â rhieni neu warcheidwaid di-Gymraeg, y rheini a aned yn y DU, a'r rheini heb grefydd oedd y lleiaf tebygol o symud ymlaen i Safon Uwch Gyfrannol.

O'r dadansoddiad uchod, gwnaethom nodi bod 20% o ddisgyblion, yn gyffredinol, yn cychwyn dysgu seiliedig ar waith yn ystod Blynyddoedd 12 a 13. Gwnaethom archwilio gweithgareddau dysgwyr Dysgu Seiliedig ar Waith ymhellach drwy rannu'r categori hwn yn hyfforddiant ymgysylltu, hyfforddiant ymgysylltu Lefel 1, prentisiaethau sylfaen, a phrentisiaethau Lefel 3 ynghyd â phrentisiaethau uwch. Mae'r dosbarthiadau hyn yn cynrychioli pedwar prif faes Dysgu Seiliedig ar Waith, sy'n gymharol wahanol o ran cymeriad a lefelau cymwysterau.



**Tabl 7: Canran math o raglen AHO dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol o'r Cyfrifiad 2011/12–2016/17**

	Lefel AS	Safon Uwch	Galwedigaethol	Dysgu seiliedig ar waith	N
<b>Cymraeg ar yr aelwyd</b>					
Dim un rhiant yn siarad Cymraeg	43%	30%	53%	21%	132,010
Un rhiant yn siarad Cymraeg	52%	41%	47%	16%	16,945
Dau riant yn siarad Cymraeg	48%	40%	50%	17%	15,755
<b>Anabledd</b>					
Yn gyfyngedig iawn	18%	11%	58%	19%	2,790
Ychydig yn gyfyngedig	28%	19%	62%	24%	5,555
Dim cyfyngiad	46%	33%	51%	20%	159,150
<b>Gwlad y tarddiad</b>					
Y DU	44%	32%	52%	20%	162,455
Y tu allan i'r DU	58%	41%	45%	9%	5,040
<b>Crefydd</b>					
Dim crefydd	36%	25%	57%	24%	64,720
Cristion	50%	37%	49%	17%	86,820
Crefydd nad yw'n Gristnogol	63%	42%	42%	9%	4,195
Heb ei nodi	42%	30%	53%	20%	11,755
<b>Pawb</b>	<b>43%</b>	<b>31%</b>	<b>53%</b>	<b>20%</b>	<b>167,495</b>

Mae Tabl 8 yn dangos cyfran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a gofrestrodd ar Dysgu Seiliedig ar Waith ar ôl cwblhau addysg orfodol yn ôl gwahanol nodweddion personol. Bechgyn, dysgwyr oed dyn cael prydau ysgol am ddim a dysgwyr AAA oedd â'r cyfrannau uchaf ar hyfforddiant ymgysylltu. Er enghraifft, roedd dysgwyr a gofrestrwyd ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod Cyfnod Allweddol 4 dair gwaith yn fwy tebygol o ddilyn hyfforddiant ymgysylltu (21%) yn ystod AHO o'i gymharu â'r rheini oedd ddim yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (7%). O ran AAA, roedd y rheini a ddynodwyd yn Gweithredu a Mwy tua 5 gwaith yn fwy tebygol o ddilyn hyfforddiant ymgysylltu (25%) o'i gymharu â'r rheini oedd heb gael eu dosbarthu fel AAA yn ystod Cyfnod Allweddol 4. Yn yr un modd, roedd gan ddysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim a dysgwyr AAA gyfrannau uwch yn dechrau ar hyfforddiant Lefel 1 (er enghraifft, 17% mewn hyfforddiant ymgysylltu a 12% mewn hyfforddiant Lefel 1 ar gyfer dysgwyr Gweithredu AAA o'i gymharu â 6% a 5% yn y drefn honno ar gyfer dysgwyr heb statws AAA hysbys). Nid yw'r gwahaniaethau hyn yn dod i'r amlwg ar gyfer prentisiaethau sylfaen nac uwch. Mae'n ymddangos bod merched yn llai tebygol o gymryd rhan mewn Dysgu Seiliedig ar Waith ar unrhyw lefel.

**Tabl 8: Canran math o raglen dysgu seiliedig ar waith dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol 2011/12–2016/17**

	Ymgysylltu	Lefel 1	Sefydliad Prentis	Prentis ac uwch	N
<b>Rhywedd</b>					
Merched	8%	7%	7%	3%	95,860
Bechgyn	10%	7%	9%	6%	100,380
<b>Statws prydau ysgol am ddim</b>					
Prydau ysgol am ddim	21%	13%	8%	3%	165,940
Dim prydau ysgol am ddim	7%	5%	7%	5%	30,300
<b>Sgiliau Cymraeg</b>					
Cymraeg rhugl	5%	4%	9%	5%	30,805
Rhywfaint o Gymraeg	10%	7%	8%	4%	76,470
Dim Cymraeg	10%	8%	8%	4%	76,400
Ddim yn gwybod	7%	5%	7%	4%	12,565
<b>Ethnigrwydd</b>					
Gwyn Prydeinig	9%	7%	9%	5%	173,915
Arall / Ddim yn gwybod	7%	5%	2%	1%	15,135
<b>Statws AAA</b>					
Dim anghenion addysgol arbennig hysbys	6%	5%	8%	5%	145,740
Cam Gweithredu	17%	12%	11%	5%	23,325
Gweithredu a Mwy	25%	14%	9%	3%	13,590
Datganiad	18%	9%	4%	1%	6,395
<b>Pawb</b>	9%	6%	8%	5%	196,240

Sylwch: Mae categorïau ethnigrwydd wedi cael eu cwmpo oherwydd niferoedd isel.



## Nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r cyfrifiad

Mae Tabl 9 yn edrych ar y gwahaniaethau yng nghyfradd y dilyniant i ddysgu seiliedig ar waith ymysg dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nifer o nodweddion economaidd-gymdeithasol o Gyfrifiad 2011.

### Amddifadedd

---

Roedd dysgwyr o aelwydydd a oedd yn profi sawl math o amddifadedd yn fwy tebygol o ddilyn hyfforddiant ymgysylltu, ac roeddent yn llai tebygol o ddilyn naill ai prentisiaethau sylfaen neu brentisiaethau Lefel 3 neu uwch. Mae ugain y cant o ddysgwyr sy'n profi tri dimensiwn o amddifadedd wedi cofrestru ar gyfer hyfforddiant ymgysylltu, gan godi i 24% ar gyfer pedwar dimensiwn.

### Statws economaidd-gymdeithasol

---

O ran statws economaidd-gymdeithasol y penteulu, roedd y dysgwyr hynny o aelwydydd lle nad oedd yr oedolyn erioed wedi gweithio (22%), yn ddi-waith am gyfnod hir (22%), neu'n cael eu cyflogi mewn galwedigaeth ailadroddus (13%) yn arbennig o fwy tebygol o gymryd rhan mewn hyfforddiant ymgysylltu neu hyfforddiant Lefel 1.

### Addysg Rhieni

---

Mae mynediad at hyfforddiant ymgysylltu yn arbennig o uchel ymysg dysgwyr y mae gan eu rhieni neu eu gwarcheidwaid lefelau isel o gyrhaeddiad addysgol o'i gymharu â'r garfan yn gyffredinol. O'i gymharu â dysgwyr a ddilynodd hyfforddiant ymgysylltu a hyfforddiant Lefel 1, roedd llai o amrywiaeth yn gyffredinol o ran dilyniant dysgwyr oedd wedi cofrestru ar gyfer prentisiaethau ar draws gwahanol fesurau o gefndir economaidd-gymdeithasol.

**Tabl 9: Canran math o raglen dysgu seiliedig ar waith dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad 2011/12-2016/17**

	Ymgysylltu	Lefel 1	Sefydliad Prentis	Prentis ac uwch	N
<b>Mesur amddifadedd</b>					
Dim amddifadedd	4%	4%	8%	5%	85,960
1 dimensiwn o amddifadedd	10%	7%	9%	5%	48,395
2 ddimensiwn o amddifadedd	14%	10%	8%	4%	23,450
3 dimensiwn o amddifadedd	20%	14%	8%	3%	8,780
4 dimensiwn o amddifadedd	24%	15%	8%	3%	905
<b>Statws economaidd-gymdeithasol (NS-SEC)</b>					
1.1: Rheoli uwch	5%	50%	35%	9%	4,820
1.2: Proffesiynol uwch	6%	56%	29%	9%	13,070
2: Rheoli a phroffesiynol is	5%	45%	40%	10%	36,665
3: Galwedigaethau canolraddol	4%	36%	49%	11%	16,720
4: Cyflogwyr bach ac ar eu liwt eu hunain	8%	36%	46%	10%	22,445
5: Goruchwylio a thechnegol is	5%	32%	52%	10%	7,880
6: Gwaith lled-ailadroddus	6%	25%	59%	10%	24,745
7: Gwaith ailadroddus	7%	23%	61%	10%	21,710
8: Erioed wedi gweithio/di-waith hirdymor	10%	15%	66%	9%	8,285
9: Myfyrwyr	7%	28%	54%	11%	2,360
<b>Swydd riant (Grwpiau Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol)</b>					
1 Rheolwyr	4%	3%	7%	5%	17,195
2 Gweithwyr Proffesiynol	3%	2%	4%	3%	23,315
3 Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiedig	4%	4%	7%	4%	16,085
4 Gweinyddol	6%	5%	9%	5%	12,085
5 Crefftau Medrus	7%	5%	11%	6%	27,170
6 Gwasanaeth Personol	10%	8%	10%	5%	15,855
7 Gwerthu	12%	9%	9%	4%	10,270
8 Gweithredwyr	10%	8%	10%	6%	18,010
9 Elfennol	14%	10%	9%	4%	20,485
Dim gwybodaeth	12%	15%	8%	2%	4,315
<b>Addysg rhieni</b>					
Dim	17%	12%	9%	4%	26,895
Lefel 1	9%	8%	10%	5%	29,205
Lefel 2	8%	6%	9%	5%	27,690
Prentisiaeth	6%	5%	11%	8%	6,720
Lefel 3	6%	5%	9%	6%	21,395
Lefel 4+	3%	3%	5%	4%	46,185
Arall	9%	7%	9%	5%	6,700
<b>Pawb</b>	<b>8%</b>	<b>6%</b>	<b>8%</b>	<b>5%</b>	<b>167,485</b>

## Nodweddion personol a chefnidrol o'r cyfrifiad

Mae Tabl 10 yn dangos y cyfraddau dilyniant uchel ymysg dysgwyr dysgu seiliedig ar waith sydd â salwch neu anableddau cyfyngus a gofrestrodd ar gyfer hyfforddiant ymgysylltu yn ystod AHO (13%).

Mae dysgwyr o gefndiroedd crefyddol sydd ddim yn Gristnogol yn ymddangos yn llai tebygol o gymryd rhan ym mhob math o raglen Dysgu Seiliedig ar Waith, gyda chyfraddau cyfranogiad 2% i 6% yn is na chyfartaledd y garfan. Mae'r rhai a anwyd y tu allan i'r DU hefyd yn ymddangos ychydig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn Dysgu Seiliedig ar Waith ar unrhyw lefel (2%).

**Tabl 10: Canran math o raglen Dysgu Seiliedig ar Waith dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn ôl nodweddion personol o'r Cyfrifiad 2011/12-2016/17**

	Ymgysylltu	Lefel 1	Sefydliad Prentis	Prentis ac uwch	N
<b>Cymraeg ar yr aelwyd</b>					
Dim un rhiant yn siarad Cymraeg	9%	7%	8%	5%	132,010
Un rhiant yn siarad Cymraeg	5%	3%	8%	5%	16,945
Dau riant yn siarad Cymraeg	5%	3%	9%	5%	15,755
<b>Anabledd</b>					
Yn gyfyngedig iawn	13%	8%	4%	2%	2,790
Ychydig yn gyfyngedig	15%	9%	7%	3%	5,555
Dim cyfyngiad	8%	6%	8%	5%	159,150
<b>Gwlad y tarddiad</b>					
Y DU	8%	6%	8%	5%	162,455
Y tu allan i'r DU	5%	3%	3%	2%	5,040
<b>Crefydd</b>					
Dim crefydd	12%	9%	9%	5%	64,720
Cristion	6%	5%	8%	5%	86,820
Crefydd nad yw'n Gristnogol	5%	4%	2%	1%	4,195
Heb ei nodi	9%	6%	9%	5%	11,755
<b>Pawb</b>	<b>8%</b>	<b>6%</b>	<b>8%</b>	<b>5%</b>	<b>167,485</b>

# Tynnu'n ôl o'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach

**Ar ôl ystyried pa ddysgwyr sy'n mynd i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, a pha fath o raglen maen nhw'n ei hastudio, rydym yn symud nawr i ystyried tynnu'n ôl o'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach.**

Yma, rydym yn edrych ar gyfrannau'r dysgwyr wnaeth ddim cwblhau'r holl raglenni y gwnaethant gofrestru ar eu cyfer ym Mlwyddyn 12, a'r rhai y gwnaethant gofrestru ar eu cyfer ym Mlwyddyn 13.

Mae dysgwyr yn aml yn cael eu cofrestru ar nifer o weithgareddau dysgu gwahanol, ac felly nid yw'n anghyffredin i ddata ddangos dysgwyr yn tynnu'n ôl o weithgareddau penodol, am wahanol resymau – addysgol, personol, logistaidd, ariannol, dewis anghywir o gwrs ac yn y blaen. Ar gyfer mesur mwy cywir o dynnu'n ôl, rydym yn diffinio diffyg dilyniant fel y myfyrwyr hynny y cofnodwyd eu bod wedi tynnu'n ôl o'r holl weithgareddau roeddent wedi ymrestru arnynt yn ystod blwyddyn academaidd benodol. Rydym yn edrych ar y rheini a dynnodd yn ôl o'r holl weithgareddau y gwnaethant ymrestru ar eu cyfer yn ystod Blwyddyn 12 a'r rheini a dynnodd yn ôl o'r holl weithgareddau y gwnaethant ymrestru ar eu cyfer yn ystod Blwyddyn 13. Mae'r mesurau hyn yn dangos bod y dysgwr wedi tynnu'n ôl o'i astudiaethau ac nad yw wedi cwblhau'r flwyddyn academaidd. O fewn y carfannau:

Amcangyfrifwyd bod

**6%**

o ddysgwyr wedi tynnu'n ôl o'r holl weithgareddau roeddent wedi ymrestru arnynt yn ystod Blwyddyn 12

Amcangyfrifwyd bod

**5%**

o ddysgwyr Blwyddyn 13 wedi tynnu'n ôl o'r holl weithgareddau roeddent wedi ymrestru arnynt yn ystod Blwyddyn 13

**Mae Tabl 11 yn dangos cyfran y dysgwyr sy'n tynnu'n ôl o'r Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach cyn cwblhau pob rhaglen ym Mlwyddyn 12 a'r rheini sy'n tynnu'n ôl ym Mlwyddyn 13 yn ôl nodweddion personol.**

Mae'n dangos mai ychydig o amrywiad sydd mewn cyfraddau tynnu'n ôl o'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach yn ôl y nodweddion personol a gofnodwyd yng Nghyfnod Allweddol 4. Un eithriad yw'r gyfradd tynnu'n ôl uwch a welwyd gan ddysgwyr a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (8%) neu a ddynodwyd â statws Gweithredu a Mwy AAA (8%). Roedd llai o amrywiaeth ar draws y nodweddion ym Mlwyddyn 13.

Mae patrymau cliriach mewn cyfraddau tynnu'n ôl yn dod i'r amlwg o ran nodweddion economaidd-gymdeithasol dysgwyr a gafodd eu casglu o Gyfrifiad 2011. Mae'r dadansoddiad sy'n cael ei gyflwyno yn Nhabl 12 yn dangos bod cyfradd tynnu'n ôl o'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach ychydig yn uwch ar gyfer dysgwyr sy'n byw mewn aelwydydd a) sy'n dioddef lefelau uwch o amddifadedd, b) sydd â statws economaidd-gymdeithasol is, c) gydag oedolion yn gweithio mewn galwedigaethau sgiliau- is, a d) gydag oedolion sydd â lefelau is o gyrhaeddiad addysgol, yn enwedig lle nad oes cymwysterau ffurfiol yn cael eu cofnodi.

**Tabl 11: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a wnaeth dynnu'n ôl o Flwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn ôl nodweddion personol o'r Gyfrifiad 2011/12–2016/17**

	Tynnu'n ôl o Flwyddyn 12	Tynnu'n ôl o Flwyddyn 13	N
<b>Rhywedd</b>			
Merched	6%	5%	95,860
Bechgyn	6%	5%	100,380
<b>Statws prydau ysgol am ddim</b>			
Prydau ysgol am ddim	8%	6%	165,940
Dim prydau ysgol am ddim	6%	4%	30,300
<b>Y Gymraeg</b>			
Cymraeg rhugl	5%	4%	30,805
Rhywfaint o Gymraeg	6%	5%	76,470
Dim Cymraeg	7%	5%	76,400
Gwrthod gwybodaeth	4%	4%	12,565
<b>Ethnigrwydd</b>			
Gwyn Prydeinig	6%	5%	173,915
Gwyn Arall	6%	4%	3,490
Asiaidd	6%	4%	3,555
Du	5%	4%	1,240
Cymysg	7%	5%	3,730
Arall	5%	3%	1,670
Ddim yn gwybod	5%	4%	1,450
<b>AAA</b>			
Dim AAA hysbys	6%	5%	145,735
Cam Gweithredu	7%	6%	23,325
Gweithredu a Mwy	8%	6%	13,590
Datganiad	4%	6%	6,395
<b>Pawb</b>	6%	5%	196,240

**Tabl 12: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a wnaeth dynnu'n ôl o Flwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad 2011/12-2016/17**

	Tynnu'n ôl o Flwyddyn 12	Tynnu'n ôl o Flwyddyn 13	N
<b>Mesur amddifadedd</b>			
Dim amddifadedd	5%	4%	85,955
1 dimensiwn o amddifadedd	6%	5%	48,395
2 dimensiwn o amddifadedd	7%	6%	23,450
3 dimensiwn o amddifadedd	8%	6%	8,775
4 dimensiwn o amddifadedd	8%	7%	905
<b>Statws economaidd-gymdeithasol (NS-SEC)</b>			
1.1: Rheoli uwch	4%	3%	4,820
1.2: Proffesiynol uwch	4%	2%	13,070
2: Rheoli a phroffesiynol is	5%	4%	36,665
3: Galwedigaethau canolraddol	6%	5%	16,720
4: Cyflogwyr bach ac ar eu liwt eu hunain	6%	4%	22,445
5: Goruchwylio a thechnegol is	6%	4%	7,880
6: Gwaith lled-ailadroddus	7%	6%	24,745
7: Gwaith ailadroddus	7%	6%	21,710
8: Erioed wedi gweithio/di-waith hirdymor	8%	6%	8,285
9: Myfyrwyr	8%	5%	2,360
<b>Swydd Rhiant (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol)</b>			
1: Rheolwyr	5%	4%	17,195
2: Gweithwyr Proffesiynol	4%	3%	23,315
3: Gweithiwr Proffesiynol Cysylltiedig	6%	4%	16,085
4: Gweinyddol	6%	5%	12,085
5: Crefftau Medrus	6%	4%	27,170
6: Gwasanaeth Personol	7%	6%	15,855
7: Gwerthiant	7%	5%	10,270
8: Gweithredwyr	6%	5%	18,010
9: Elfennol	7%	6%	20,485
Dim gwybodaeth	9%	6%	4,315
<b>Cefndir Addysgol</b>			
Dim	8%	6%	26,895
Lefel 1	6%	5%	29,205
Lefel 2	6%	5%	27,690
Prentisiaeth	6%	5%	6,720
Lefel 3	6%	4%	21,395
Lefel 4+	4%	3%	46,185
Arall	7%	5%	6,700
<b>Pawb</b>	<b>6%</b>	<b>5%</b>	<b>167,495</b>

# Dilyniant i Addysg Uwch

## **Gyda'r data, roedd modd edrych ar ddilyniant pum carfan o ddysgwyr i Addysg Uwch o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 a oedd ym Mlwyddyn 11 yn 2011/12, 2012/13, a 2013/14 (gweler Tabl 1).**

Mae hyn yn cyfateb i 134,300 o ddysgwyr. Rhaid cydnabod y gall mynediad i Addysg Uwch gael ei ohirio, gyda rhai dysgwyr yn cymryd blwyddyn i ffwrdd neu'n penderfynu ailsefyll eu harholiadau Safon Uwch neu arholiadau eraill. Ni fydd y dysgwyr rydym yn arsylwi arnynt yn mynd i Addysg Uwch o'r tair carfan hyn yn cynrychioli cyfanswm poblogaeth dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 fydd yn mynd i Addysg Uwch yn y pen draw. Mae'r mater hwn yn arbennig o berthnasol i'n trydedd garfan o ddisgyblion (Carfan C) lle na allem olrhain dilyniant dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 i Addysg Uwch oni bai eu bod yn gwneud hynny'n syth ar ôl cwblhau Cyfnod Allweddol 5.

## **Mae Tabl 13 yn dangos cyfran ein carfannau Cyfnod Allweddol 4 wnaeth symud ymlaen i Addysg Uwch yn ôl detholiad o nodweddion personol a gafodd eu cofnodi am y dysgwyr hyn yn ystod Blwyddyn 11.**

Mae'n dangos bod y gyfradd dilyniant i Addysg Uwch yn uwch ymysg merched (46%) na bechgyn (34%), dysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim (43%) o gymharu â dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim (19%), a dysgwyr sydd heb statws AAA hysbys (45%) o gymharu â'r rheini y nodwyd bod ganddynt AAA (rhwng 19% a 10%). Dysgwyr AAA a'r rheini oedd â statws prydau ysgol am ddim oedd â'r gyfran isaf o ddysgwyr a oedd yn symud ymlaen i Addysg Uwch. Dysgwyr Gwyn Prydeinig oedd â'r gyfradd isaf o ddilyniant i Addysg Uwch (37%) o'i gymharu â dysgwyr o ethnigrwydd arall.

## **Mae Tabl 14 yn dangos dilyniant dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 i Addysg Uwch yn ôl detholiad o nodweddion personol a nodweddion aelwyd/teulu eraill o ddata'r Cyfrifiad.**

Roedd cyfraddau dilyniant dysgwyr i Addysg Uwch yn is ymysg y rhai a gofnodwyd yng Nghyfrifiad 2011 fel rhai ag anabledd neu broblem iechyd cyfyngus (18–27%). Roedd y dilyniant i Addysg Uwch hefyd yn gymharol isel ymysg y rheini heb rieni Cymraeg eu hiaith (40%), y rheini a aned yn y DU (41%), a'r rheini heb grefydd (33%).

**Tabl 13: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 wnaeth symud ymlaen i Addysg Uwch yn ôl nodweddion personol 2011/12–2015/16**

	<b>Mewn Addysg Uwch</b>	<b>N</b>
<b>Rhywedd</b>		
Merched	46%	65,640
Bechgyn	34%	68,665
<b>Statws prydau ysgol am ddim</b>		
Prydau ysgol am ddim	19%	20,600
Dim prydau ysgol am ddim	43%	113,700
<b>Y Gymraeg</b>		
Cymraeg rhugl	48%	20,300
Rhywfaint o Gymraeg	36%	50,790
Dim Cymraeg	37%	52,800
Gwrthod gwybodaeth	52%	10,410
<b>Ethnigrwydd</b>		
Gwyn Prydeinig	37%	117,465
Gwyn Arall	40%	2,120
Asiaidd	56%	2,420
Du	55%	765
Cymysg	78%	195
Arall	45%	2,405
Ddim yn gwybod	58%	1,030
<b>AAA</b>		
Dim AAA hysbys	45%	98,320
Cam Gweithredu	19%	15,255
Gweithredu a Mwy	14%	9,065
Datganiad	10%	4,470
<b>Pawb</b>	40%	134,300



**Tabl 14: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 wnaeth symud ymlaen i Addysg Uwch yn ôl nodweddion o'r Cyfrifiad 2011/12-2015/16**

	<b>Mewn Addysg Uwch</b>	<b>N</b>
<b>Cymraeg ar yr aelwyd</b>		
Dim un riant yn siarad Cymraeg	40%	91,685
Un riant yn siarad Cymraeg	50%	11,305
Dau riant yn siarad Cymraeg	48%	10,655
<b>Anabledd</b>		
Yn gyfyngedig iawn	18%	20,030
Ychydig yn gyfyngedig	27%	3,970
Dim cyfyngiad	42%	109,675
<b>Gwlad y tarddiad</b>		
Y DU	41%	112,180
Y tu allan i'r DU	56%	3,490
<b>Crefydd</b>		
Dim crefydd	33%	44,860
Cristion	47%	59,900
Crefydd nad yw'n Gristnogol	60%	2,785
Heb ei nodi	38%	8,120
<b>Pawb</b>	<b>40%</b>	<b>134,300</b>


## Nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r cyfrifiad

Mae Ffigur 2 yn dangos, yn yr un modd â symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, bod dysgwyr o aelwydydd mwy difreintiedig yn llai tebygol o symud ymlaen i Addysg Uwch.

Ar gyfer pob mesur o statws economaidd-gymdeithasol, mae graddiannau clir yn ymddangos sy'n dangos mai dysgwyr o gefndiroedd mwy difreintiedig yw'r lleiaf tebygol o fynd i Addysg Uwch.

O ran amddifadedd, dim ond 14% o'r dysgwyr a brofodd bedwar dimensiwn o amddifadedd a aeth i Addysg Uwch, o'i gymharu â 51% o ddysgwyr o gartrefi sydd ddim yn cael eu hystyried yn ddifreintiedig. O ran statws economaidd-gymdeithasol y pen teulu, dim ond 18% o'r dysgwyr nad oedd eu rhieni neu eu gwarcheidwaid erioed wedi gweithio neu a oedd yn ddi-waith am gyfnod hir a aeth i Addysg Uwch, o'i gymharu â 66% o'r rhieni a oedd yn byw mewn aelwydydd gydag oedolion a oedd mewn swyddi proffesiynol uwch. O ran galwedigaeth rhieni, aeth llai na thraean y dysgwyr roedd eu rhieni'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau gwerthu (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 7), fel gweithredwyr (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 8) neu mewn galwedigaethau elfennol (Grŵp Mawr Dosbarthiad Galwedigaethol Safonol 9) ymlaen i Addysg Uwch. Mae hyn i'w gymharu â dros hanner y dysgwyr roedd eu rhieni'n cael eu cyflogi mewn galwedigaethau rheoli, proffesiynol a phroffesiynol cysylltiedig.

**Ffigur 2: Canran y dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a gychwynnodd mewn Addysg Uwch yn ôl nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad**



# Dadansoddiad Poblogaeth

## **Mae adrannau blaenorol yr adroddiad hwn wedi edrych ar y trawsnewidiadau drwy addysg drydyddol a wnaed gan garfannau dilynol o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4.**

Mantais y dull hwn yw ei fod yn caniatáu i ni ddefnyddio gwybodaeth a gasglwyd am nodweddion y dysgwyr hyn yng Nghyfnod Allweddol 4 i edrych ar y newidiadau a wnaed gan wahanol grwpiau. Er enghraifft, gwelsom wahaniaethau o ran dilyniant dysgwyr ar sail bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Fodd bynnag, un o gyfyngiadau'r dull hwn yw bod y dadansoddiadau hyd yma wedi'u cyfyngu i'r newidiadau cynnar a wnaed gan garfannau dethol o ddysgwyr iau sy'n dilyn llwybr mwy traddodiadol, di-dor a dilynol drwy'r system drydyddol. Mae'n cymryd sawl blwyddyn olynol o ddata am y dysgwyr hyn i greu darlun cyfoethog o'r trawsnewidiadau sy'n cael eu gwneud drwy'r system drydyddol. O ganlyniad, nid ydym wedi gallu edrych ar fynediad i addysg drydyddol y carfannau hyn wrth iddynt fynd yn hŷn.

Er enghraifft, er ein bod wedi arsylwi dysgwyr yn mynd ar gyrsiau Dysgu Seiliedig ar Waith lefel sgiliau is sydd wedi'u targedu at bobl ifanc 16-18 oed, mae'r dadansoddiad carfan yn rhoi darlun rhannol yn unig o'r rheini sy'n ymgymryd â rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith uwch. Nid yw rôl colegau Addysg Bellach mewn darparu cyrsiau academaidd, galwedigaethol neu hamdden i ddysgwyr hŷn wedi cael ei harchwilio. Ar ben hynny, er ein bod wedi gallu darparu darlun o'r rheini sy'n mynd i Addysg Uwch yn syth ar ôl y Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, nid oes gennym ddigon o ddata i ddilyn y carfannau hyn drwy'r brifysgol i edrych ar y cymwysterau maen nhw'n eu hennill ar ôl graddio. Nid yw mynediad at astudiaethau ôl-raddedig wedi cael ei ystyried ychwaith.

I fynd i'r afael â'r materion hyn, mae'r adran hon yn edrych ar nodweddion y boblogaeth gyfan o ddysgwyr mewn addysg drydyddol. Mae'r dadansoddiad poblogaeth hwn yn cynnwys yr holl ddysgwyr wnaeth gofrestru mewn Chweched Dosbarth a lleoliadau Addysg Bellach (gan gynnwys Dysgu Seiliedig ar Waith) rhwng 2011/12 a 2018/19 ac mewn Addysg Uwch rhwng 2013/14 a 2018/2019.

Wrth edrych ar nodweddion gwahanol grwpiau yn y sector trydyddol, ni all y dadansoddiad hwn ddibynnu ar ddata a gasglwyd yng Nghyfnod Allweddol 4, gan nad yw ar gael ar gyfer lawer o ddysgwyr mewn lleoliadau trydyddol. Wrth archwilio nodweddion gwahanol grwpiau o ddysgwyr, rydym wedi ein cyfyngu i wybodaeth a gasglwyd amdanynt yng Nghyfrifiad 2011. Felly, mae'r dadansoddiad wedi'i gyfyngu i ddysgwyr a oedd yn byw yng Nghymru yn 2011, p'un a oeddent yn byw gyda'u rhieni neu'n annibynnol.

Ar gyfer y rheini sydd ar gyrsiau sy'n cael eu dilyn yn gyffredinol gan ddysgwyr iau (e.e. Safon Uwch neu hyfforddeiaeth) neu ddysgwyr mewn Chweched Dosbarth, ni fydd y dadansoddiad o lefel y boblogaeth yn wahanol iawn i ganlyniadau'r dadansoddiad o'r garfan a gyflwynwyd yn gynharach. Fodd bynnag, daw gwahaniaethau i'r amlwg mewn perthynas â chysiau neu leoliadau sy'n darparu cyfleoedd i ddysgwyr o grwpiau oedran mwy amrywiol.

## Cyfranogiad mewn Addysg Drydyddol

**Yn yr adrannau sy'n dilyn, rydym yn cyflwyno canfyddiadau o'r dadansoddiad poblogaeth wedi'u grwpio yn ôl nodweddion gwahanol. Mae Tabl 15 yn dangos cyfran y dysgwyr mewn gwahanol leoliadau yn ôl nodweddion personol.**

### Oedran

Mae ystod oedran eang iawn o ddysgwyr yn y sector trydyddol. Yn y dadansoddiad hwn, mae oedran yn cael ei dynnu o'r Cyfrifiad. Felly, mae'n deillio o oedran y dysgwyr y mis Mawrth cyn y flwyddyn academaidd y dechreuodd eu gweithgarwch dysgu. Roedd gan ddysgwyr mewn lleoliadau Chweched Dosbarth oedran cymedrig o 16 oed wrth astudio Safon Uwch Gyfrannol neu TGAU, ac oedran cymedrig o 17 ar gyfer Safon Uwch a chymwysterau galwedigaethol. Amcangyfrifwyd bod y rhai a gafodd eu harsylwi mewn Addysg B yn hŷn, hyd yn oed y rheini a oedd yn ymgymryd â chymwysterau sy'n cael eu gwneud yn bennaf gan y rheini yng Nghyfnod Allweddol 5 (e.e. Safon Uwch/Uwch Gyfrannol). Amcangyfrifwyd bod y rheini a oedd yn ymgymryd â chymwysterau galwedigaethol ar gyfartaledd yn 29 oed. Ar gyfer Dysgu Seiliedig ar Waith, roedd oedran cyfartalog dysgwyr yn cynyddu gyda lefel yr astudio. Mewn Addysg Uwch, amcangyfrifwyd bod oedran cymedrig myfyrwyr israddedig yn 25 oed, gan godi i 33 mlynedd ymysg ôl-raddedigion. Roedd y grŵp hynaf o ddysgwyr mewn darpariaeth Addysg Bellach yn ymwneud ag Dysgu Oedolion yn y Gymuned (41 oed).

### Rhywedd

Roedd menywod yn cynrychioli cyfran uwch o ddysgwyr ar draws pob math o raglen o'u cymharu â dynion (er enghraifft, roedd 53% o ddysgwyr Chweched Dosbarth yn ferched, o'i gymharu â 47% a oedd yn fechgyn). Mewn darpariaeth Addysg Bellach, mae cyfran y dysgwyr sydd yn fenywod yn cynyddu i 57%. Mewn Dysgu Seiliedig ar Waith, roedd cyfran y dysgwyr oedd yn fenywod yn cynyddu yn gyson â lefel yr astudio. Roedd menywod yn cyfrif am oddeutu dwy ran o dair o'r rhai a oedd yn dilyn cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned mewn Addysg Bellach. Mewn Addysg Uwch, roedd menywod yn cyfrif am chwech o bob deg myfyriwr israddedig ac ôl-raddedig.

## Anabledd

---

Cymharol ychydig o amrywiad a welwyd yng nghyfran y dysgwyr sydd â salwch neu gyflwr iechyd cyfyngus hirdymor. Yr eithriad oedd y rheini a oedd yn ymgymryd â chysiau anacademaidd ac analwedigaethol o fewn darpariaeth Addysg Bellach. Mae cyfran sylweddol o ddysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn dweud eu bod wedi'u cyfyngu gan salwch neu gyflwr iechyd hirdymor (21%). Mae hyn yn adlewyrchu oedran cymharol hŷn y grŵp hwn. Serch hynny, roedd hyn yn dal yn is na'r lefelau anabledd a welwyd yn y boblogaeth ehangach (27%).

## Crefydd

---

Roedd lefelau ffyddlondeb ar eu huchaf mewn lleoliadau Chweched Dosbarth, gyda llai na thraean o'r dysgwyr yn cofnodi eu bod heb grefydd yn y Cyfrifiad. Roedd y lefelau o ffyddlondeb ar eu hisaf ymhlith y rhai mewn Dysgu Seiliedig ar Waith, yn enwedig y rhai oedd yn ymgymryd â hyfforddiant Lefel 1 lle'r oedd dros hanner (53-54%) yn dweud nad oedd ganddynt grefydd. Yn y boblogaeth ehangach, cofnodwyd nad oedd gan 29% grefydd.

## Statws Mudwr

---

Cymharol ychydig o amrywiad a welwyd yng nghyfran y dysgwyr a gofnodwyd fel rhai a aned dramor ar draws y mathau o ddarpariaeth. O'i gymharu â'r boblogaeth ehangach (5%), roedd cyfran y dysgwyr a oedd yn fewnfudwyr ar ei huchaf yn y sector Addysg Uwch (8%) ac ymysg cyfranogwyr cyrsiau Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn y sector Addysg Bellach (8%).

## Siarad Cymraeg

---

Roedd dysgwyr yn y sector addysg drydyddol yn fwy tebygol o gael eu cofnodi gyda sgiliau Cymraeg o'i gymharu â'r rheini na gafodd eu gweld mewn addysg drydyddol (23%). Roedd hyn yn arbennig o wir ymysg y dysgwyr iau yn y Chweched Dosbarth (62%) a'r rheini sy'n ymgymryd â chymwysterau Safon Uwch/Uwch Gyfrannol mewn darpariaeth Addysg Bellach (50-51%). Roedd sgiliau Cymraeg ar eu hisaf ymysg dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned (24%).

## Gofalwyr

---

Mae cyfrifoldebau gofalu yn gysylltiedig ag oedran, felly yn gyffredinol roedd gan ddysgwyr yn y sector addysg drydyddol lefelau is o gyfrifoldebau gofalu na'r boblogaeth ehangach (14%). Yr eithriad oedd dysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a chofnodwyd bod gan 15% ohonynt gyfrifoldebau gofalu. Bydd y ffigur hwn yn rhannol yn adlewyrchu'r gyfran gymharol uchel o ddysgwyr Dysgu Oedolion yn y Gymuned a oedd yn fenywod.

**Tabl 15: Cyfansoddiad cyfranogiad mewn addysg drydyddol: Nodweddion personol a ddewiswyd, 2011/12–2016/17**

	Oedran	Rhywedd	Anabledd	Crefydd	Statws Mudwr	Iaith Gymraeg	Gofalwyr
	Blynyddoedd	% Merched	% Heb eu cyfyngu	% Dim Crefydd	% Mudwyr	% Sgiliau Cymraeg	% Gofalwyr
<b>Chweched Dosbarth</b>							
Safon Uwch Gyfrannol	16.2	54%	97%	31%	4%	63%	3%
Safon Uwch	17.1	56%	97%	30%	4%	66%	3%
TGAU	16.2	54%	95%	34%	4%	61%	3%
Galwedigaethol	16.8	50%	94%	35%	3%	59%	3%
Arall	16.7	54%	97%	32%	3%	66%	3%
Pob Chweched Dosbarth	16.2	53%	96%	32%	3%	62%	3%
<b>Colegau Addysg Bellach</b>							
Safon Uwch Gyfrannol	17.7	60%	96%	35%	5%	50%	4%
Safon Uwch	18.4	60%	96%	34%	5%	51%	4%
TGAU	20.6	55%	92%	40%	5%	43%	6%
Galwedigaethol	28.7	56%	92%	41%	4%	36%	9%
Arall: Lefel	28.5	56%	89%	41%	5%	35%	9%
Arall: Dim Lefel	32.0	57%	87%	39%	5%	34%	11%
Pob Addysg Bellach	31.3	57%	88%	39%	5%	33%	11%
<b>Dysgu seiliedig ar waith</b>							
Hyfforddiant ymgysylltu	16.1	45%	91%	54%	2%	40%	3%
Hyfforddiant Lefel 1	16.5	49%	93%	53%	2%	41%	4%
Prentisiaeth Sylfaen	26.4	54%	94%	44%	3%	35%	8%
Prentisiaeth	28.8	59%	95%	41%	3%	36%	9%
Prentisiaeth Uwch	36.5	73%	95%	39%	4%	31%	13%
Pob dysgu seiliedig ar waith	27.5	56%	93%	44%	3%	34%	8%
<b>Dysgu Oedolion yn y Gymuned</b>	41.2	64%	79%	37%	8%	24%	15%
<b>Pob Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith</b>	31.2	56%	88%	40%	5%	34%	10%
<b>Addysg Uwch</b>							
Israddedig	25.0	60%	95%	35%	6%	49%	6%
Ôl-radd	32.7	62%	95%	36%	9%	38%	9%
Pob Addysg Uwch	26.2	60%	93%	36%	8%	41%	9%
<b>Heb ei Arsylwi mewn Addysg Drydyddol</b>	45.8	50%	73%	29%	5%	23%	14%

# Nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r cyfrifiad

## Statws Economaidd-gymdeithasol

**Mae Tabl 16 yn edrych ar gefndiroedd economaidd-gymdeithasol dysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol.**

Ar gyfer y dadansoddiad hwn, mae statws economaidd-gymdeithasol yn cael ei fesur mewn perthynas â'r pen teulu, y person sy'n gyfrifol am yr eiddo. I ddysgwyr iau, bydd statws economaidd-gymdeithasol fwy na thebyg yn adlewyrchu sefyllfa gyflogaeth eu rhieni ac, yn bennaf, eu tadau. Fodd bynnag, i'r rheini oedd yn byw'n annibynnol adeg Cyfrifiad 2011, efallai mai'r dysgwyr eu hunain neu eu partneriaid fydd y pen teulu.

O'i gymharu rhannau eraill o'r sector trydyddol, mae'r rhai sy'n mynychu Chweched Dosbarth yn dod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch. Mae dysgwyr o aelwydydd rheolaethol a phroffesiynol (grwpiau 1 a 2 NS-SEC) yn cyfrif am gyfran gymharol uchel o ddysgwyr Chweched Dosbarth (44%) o'i gymharu â'r rheini mewn Addysg Bellach (33%). Mae hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan nifer sy'n ymgymryd â Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn y Chweched Dosbarth. Hyd yn oed ymysg myfyrwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol, mae'r gyfran o aelwydydd rheolaethol a phroffesiynol yn uwch mewn Chweched Dosbarth (Safon Uwch Gyfrannol, 48%; Safon Uwch, 50%) nag mewn Addysg Bellach (Safon Uwch Gyfrannol, 42%; Safon Uwch, 45%). Mae dysgwyr o'r cefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch hyn yn cael eu tangynrychioli ymysg dysgwyr galwedigaethol mewn Addysg Bellach (27%) o'i gymharu â'r rheini yn y Chweched Dosbarth (35%).

Daw tuedd glir i'r amlwg yn statws economaidd-gymdeithasol y rheini sy'n cymryd rhan mewn Dysgu Seiliedig ar Waith. Mae'r rheini o gefndiroedd rheolaethol a phroffesiynol yn cyfrif am 16% o gyfranogwyr hyfforddiant ymgysylltu, 25% o gyfranogwyr prentisiaethau sylfaen, 32% o gyfranogwyr prentisiaethau, a bron i hanner (47%) cyfranogwyr prentisiaethau uwch. Mae hyn yn awgrymu bod gwahanol gymwysterau Dysgu Seiliedig ar Waith yn cael eu cyflawni gan grwpiau gwahanol o bobl.

Ymysg y cyfranogwyr mewn Addysg Uwch, mae bron i hanner (49%) yn dod o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol uwch. Mae'r myfyrwyr hyn yn gyfran sylweddol uwch o fyfyrwyr ôl-raddedig (59%) o'i gymharu â myfyrwyr israddedig (45%).

**Tabl 16: Cyfansoddiad cyfranogiad mewn addysg drydyddol: Statws economaidd-gymdeithasol, 2011/12–2016/17**

	NS-SEC y Pen Teulu									
	1.1	1.2	2	3	4	5	6	7	8	9
<b>Chweched Dosbarth</b>										
Safon Uwch Gyfrannol	4%	14%	30%	11%	15%	5%	11%	9%	2%	1%
Safon Uwch	5%	14%	31%	11%	14%	4%	10%	8%	2%	1%
TGAU	3%	8%	24%	11%	15%	5%	15%	13%	4%	2%
Galwedigaethol	3%	8%	24%	11%	15%	5%	15%	14%	4%	1%
Arall	4%	12%	28%	11%	15%	5%	12%	9%	2%	1%
Pob Chweched Dosbarth	4%	12%	28%	11%	14%	5%	12%	10%	3%	1%
<b>Colegau Addysg Bellach</b>										
Safon Uwch Gyfrannol	4%	11%	28%	12%	13%	5%	13%	10%	3%	2%
Safon Uwch	4%	12%	29%	12%	13%	5%	12%	9%	3%	2%
TGAU	2%	5%	20%	11%	13%	5%	19%	16%	6%	2%
Galwedigaethol	2%	5%	21%	11%	12%	6%	19%	16%	5%	2%
Arall - Lefel 3+	2%	6%	21%	11%	12%	5%	19%	16%	6%	2%
Arall - Dim lefel	2%	6%	22%	11%	12%	5%	18%	15%	6%	2%
Pob Addysg Bellach	3%	7%	23%	11%	12%	5%	18%	15%	5%	2%
<b>Dysgu seiliedig ar waith</b>										
Hyfforddiant ymgysylltu	1%	2%	13%	8%	10%	4%	23%	22%	14%	2%
Hyfforddiant Lefel 1	1%	3%	13%	9%	10%	5%	23%	22%	12%	2%
Prentisiaeth sylfaen	2%	4%	19%	11%	13%	6%	22%	18%	5%	1%
Prentisiaeth	3%	6%	23%	13%	13%	6%	20%	14%	3%	2%
Prentisiaeth uwch	4%	8%	35%	12%	10%	5%	14%	9%	1%	2%
Pob dysgu seiliedig ar waith	2%	5%	21%	11%	11%	6%	20%	16%	6%	2%
<b>Dysgu Oedolion yn y Gymuned</b>										
Pob Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith	2%	6%	22%	11%	12%	5%	18%	15%	6%	2%
<b>Addysg Uwch</b>										
Israddedig	4%	12%	29%	12%	13%	4%	12%	9%	2%	2%
Ôl-radd	4%	19%	36%	9%	10%	3%	7%	5%	1%	6%
Pob Addysg Uwch	4%	14%	31%	11%	12%	4%	11%	8%	2%	5%
<b>Heb ei Arsylwi mewn Addysg Drydyddol</b>										
	3%	9%	23%	11%	14%	5%	15%	16%	4%	1%



## Amddifadedd

---

Mae Tabl 17 yn edrych ar gefndiroedd amddifadedd<sup>20</sup> dysgwyr ar draws y sector addysg drydyddol.

### Amddifadedd Addysg

---

Yn deillio o Ddata'r Cyfrifiad, mae aelwyd yn cael ei hystyried yn un sy'n ddifreintiedig mewn addysg os nad oes gan unrhyw un o leiaf addysg lefel 2 (a gyflawnwyd yn gyffredinol yn ystod Cyfnod Allweddol 4 ac sy'n cyfateb i TGAU ar raddau A\*-C) ac nad oes unrhyw un 16 i 18 oed yn fyfyrwr amser llawn. Mae lefelau amddifadedd addysgol yn is ar y cyfan ymysg dysgwyr yn y sector addysg drydyddol o'i gymharu â'r boblogaeth ehangach (28%) gan ei bod yn bosibl bod llawer eisoes wedi ennill cymhwyster Lefel 2 ar adeg y Cyfrifiad, gan sicrhau nad oedd eu cartref yn cael ei ddsbarthu fel un sy'n ddifreintiedig yn addysgol. Er enghraifft, roedd lefelau amddifadedd addysgol adeg Cyfrifiad 2011 ar eu hisaf ymhlith myfyrwyr a oedd wedyn yn astudio mewn Addysg Uwch. I ryw raddau, mae'r canfyddiad hwn yn dawtolegol gan y byddai gan lawer o fyfyrwyr a oedd yn y brifysgol rhwng 2013 a 2018 gymwysterau lefel 2 adeg Cyfrifiad 2011.

Yn yr un modd, roedd lefelau amddifadedd addysgol ar eu huchaf ymysg dysgwyr a oedd yn ymgymryd ag hyfforddiant ymgysylltu (34%) neu hyfforddiant Lefel 1 (31%). Roedd y ffigurau hyn tua tair gwaith yn uwch na'r lefelau amddifadedd addysgol a welwyd ymysg y rheini ar brentisiaethau. Fodd bynnag, dylid nodi bod ennill cymhwyster Lefel 2 yn un o amodau mynediad prentisiaethau sylfaen, ac mae hynny'n cyfyngu ar fesur amddifadedd addysgol aelwydydd fel rhagfynegydd o gyfranogiad dilynol yn y sector addysg drydyddol.

### Amddifadedd Cyflogaeth

---

Mae aelwyd yn cael ei hystyried yn un sy'n ddifreintiedig o ran cyflogaeth os yw unrhyw aelod, sydd ddim yn fyfyrwr amser llawn, naill ai'n ddi-waith neu'n economaidd anweithgar oherwydd salwch tymor hir neu anabledd. O'i gymharu â rhannau eraill o'r sector trydyddol, roedd y rhai a oedd yn mynychu Chweched Dosbarth ymysg y rhai a oedd leiaf tebygol o ddod o gefndiroedd difreintiedig o ran cyflogaeth (12%). Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer y dysgwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn y Chweched Dosbarth, lle roedd lefelau amddifadedd cyflogaeth yn arbennig o isel (Safon Uwch Gyfrannol, 11%; Safon Uwch, 10%). Roedd y lefelau amddifadedd cyflogaeth hyn yn sylweddol is na'r rheini oedd yn gwneud cymwysterau tebyg mewn darpariaeth Addysg Bellach (Safon Uwch Gyfrannol, 15%; Safon Uwch, 15%).

<sup>20</sup> Mae mesurau amddifadedd yn cael eu creu gan dimau Cyfrifiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Mae gwybodaeth am y mesurau hyn ar gael yn '2011 Census Variable and Classification Information: Part 4' yma: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-user-guide/information-by-variable/part-4--derived-variables.pdf>

Roedd y rheini o gefndiroedd difreintiedig o ran cyflogaeth yn cael eu gorgynrychioli'n gymharol ymysg dysgwyr galwedigaethol mewn Addysg Bellach (22%) o'i gymharu â'r rheini yn y Chweched Dosbarth (17%) a'r boblogaeth ehangach (17%).

Roedd bron i un o bob pedwar (23%) o'r rheini a oedd yn ymgymryd â rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith yn dod o gartrefi oedd yn ddifreintiedig o ran cyflogaeth. Mae modd gweld tuedd glir yn y statws amddifadedd cyflogaeth yn ôl lefel y cymhwyster Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n cael ei wneud. Roedd lefelau amddifadedd cyflogaeth ar eu huchaf ymysg dysgwyr sy'n ymgymryd ag hyfforddiant ymgysylltu (33%) neu hyfforddiant lefel 1 (31%). Mae'r ffigurau hyn yn gostwng yn gyson ar gyfer y rheini sy'n gwneud prentisiaethau sylfaen (23%), prentisiaethau (18%), a phrentisiaethau uwch (12%).

Ymysg y cyfranogwyr mewn Addysg Uwch, roedd 13% o fyfyrwyr yn dod o gefndiroedd difreintiedig o ran cyflogaeth. Roedd y myfyrwyr hyn yn gyfran uwch o fyfyrwyr ôl-raddedig (14%) o'i gymharu â myfyrwyr israddedig (10%).

## **Amddifadedd Tai**

---

Mae aelwyd yn cael ei dosbarthu fel un difreintiedig yn y dimensiwn tai os yw'r llety naill ai'n orlawn, mewn annedd a rennir, neu heb wres canolog. O'i gymharu â rhannau eraill o'r sector trydyddol, roedd y rhai a oedd yn mynychu Chweched Dosbarth yn lleiaf tebygol o ddod o gefndir difreintiedig o ran tai (7%). Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer y dysgwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn y Chweched Dosbarth, lle roedd lefelau amddifadedd tai yn arbennig o isel (6%). Roedd amddifadedd tai ymysg myfyrwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol Chweched Dosbarth 2 bwynt canran yn is nag ymysg y rhai sy'n ymgymryd â'r cymwysterau hyn mewn Addysg Bellach (8%). Y tu hwnt i ddysgwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol, roedd lefelau amddifadedd tai yn gymharol unffurf o fewn darpariaeth Addysg Bellach, sef tua 10-12%.

Yn gyffredinol, roedd lefelau amddifadedd tai ymysg y rhai a oedd yn ymgymryd â rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith yn debyg i'r rhai a welwyd ar draws Addysg Bellach (10%). Ond, modd tuedd yn ymddangos yn y statws amddifadedd cyflogaeth yn ôl lefel y cymhwyster Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n cael ei wneud. Roedd lefelau amddifadedd tai ar eu huchaf ymysg dysgwyr sy'n ymgymryd ag hyfforddiant ymgysylltu (17%) neu hyfforddiant lefel 1 (17%). Mae'r ffigurau hyn yn gostwng yn gyson ar gyfer y rheini sy'n gwneud prentisiaethau sylfaen (12%), prentisiaethau (10%) a phrentisiaethau uwch (7%).

Ymysg y cyfranogwyr mewn Addysg Uwch, dim ond 8% o fyfyrwyr yn dod o gefndiroedd difreintiedig o ran tai.

## Amddifadedd Iechyd

---

Mae aelwyd yn cael ei dosbarthu fel un difreintiedig yn y dimensiwn iechyd os oes gan unrhyw berson iechyd cyffredinol sy'n wael, yn wael iawn, neu os yw'n cael ei ystyried yn anabl. Mae pobl sydd wedi asesu bod eu gweithgareddau o ddydd i ddydd wedi'u cyfyngu gan salwch neu gyflyrau iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn cael eu hystyried yn anabl.

O'i gymharu â rhannau eraill o'r sector trydyddol, roedd y rhai a oedd yn mynychu Chweched Dosbarth ymysg y rhai a oedd leiaf tebygol o ddod o gefndiroedd difreintiedig o ran iechyd (24%). Mae hyn yn bennaf oherwydd nifer y dysgwyr Safon Uwch/Uwch Gyfrannol yn y Chweched Dosbarth, lle roedd lefelau amddifadedd iechyd yn weddol isel (21-22%). Roedd amddifadedd iechyd ymhlith myfyrwyr lefel Safon Uwch/Uwch Gyfrannol tua 4 pwynt canran yn is na'r rhai sy'n ymgymryd â'r cymwysterau hyn yn y sector Addysg Bellach (26%). Roedd traean o'r rheini a oedd yn gwneud TGAU mewn Addysg Bellach yn dod o gefndir difreintiedig o ran iechyd.

Yn gyffredinol, roedd lefelau amddifadedd iechyd ymysg y rhai a oedd yn ymgymryd â rhaglenni Dysgu Seiliedig ar Waith (29%) yn debyg i'r rhai a welwyd ar draws Addysg Bellach (32%). Ond, mae modd gweld tuedd unwaith eto yn y statws amddifadedd iechyd yn ôl lefel y cymhwyster Dysgu Seiliedig ar Waith sy'n cael ei wneud. Roedd amddifadedd iechyd ar ei uchaf ymysg dysgwyr sy'n ymgymryd ag hyfforddiant ymgysylltu (42%) neu hyfforddiant lefel 1 (39%). Mae'r ffigurau hyn yn gostwng ar gyfer y rheini sy'n gwneud prentisiaethau sylfaen (28%), prentisiaethau (24%) a phrentisiaethau uwch (20%).

Gwelwyd rhai o'r lefelau uchaf o amddifadedd iechyd ymysg y rhai a oedd yn cymryd rhan mewn Dysgu Oedolion yn y Gymuned (39%). Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol oedran cymharol hŷn y grŵp hwn o ddysgwyr.

**Tabl 17: Cyfansoddiad cyfranogiad mewn addysg drydyddol: Amddifadedd aelwydydd, 2011/12–2016/17**

<b>Mesur Amddifadedd (% difreintiedig)</b>				
	<b>Addysg</b>	<b>Cyflogaeth</b>	<b>Tai</b>	<b>Iechyd</b>
<b>Chweched Dosbarth</b>				
Safon Uwch Gyfrannol	11%	11%	6%	22%
Safon Uwch	9%	10%	6%	21%
TGAU	18%	16%	9%	27%
Galwedigaethol	17%	17%	9%	29%
Arall	11%	12%	7%	24%
Pawb	12%	12%	7%	24%
<b>Colegau Addysg Bellach</b>				
Safon Uwch Gyfrannol	10%	15%	8%	26%
Safon Uwch	8%	15%	8%	26%
TGAU	19%	22%	12%	33%
Galwedigaethol	17%	22%	11%	29%
Arall – Lefel	19%	24%	11%	32%
Arall – Dim lefel	18%	23%	10%	33%
Pawb	18%	22%	10%	32%
<b>Dysgu seiliedig ar waith</b>				
Hyfforddiant ymgysylltu	34%	33%	17%	42%
Hyfforddiant Lefel 1	31%	31%	17%	39%
Prentisiaeth Sylfaen	18%	23%	12%	28%
Prentisiaeth	11%	18%	10%	24%
Prentisiaeth Uwch	5%	12%	7%	20%
Pob dysgu seiliedig ar waith	18%	23%	11%	29%
<b>Dysgu Oedolion yn y Gymuned</b>	25%	27%	10%	39%
<b>Pob Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith</b>	18%	22%	10%	31%
<b>Addysg Uwch</b>				
Israddedig	9%	14%	7%	24%
Ôl-radd	2%	10%	8%	19%
Pob Addysg Uwch	6%	13%	8%	24%
<b>Heb ei Arsylwi mewn Addysg Drydyddol</b>	28%	17%	7%	41%

# Cyrhaeddiad mewn Addysg Drydyddol

**Er bod buddsoddiad wedi bod mewn cynlluniau 'Ehangu Cyfranogiad' a'r rheini sydd wedi'u hanelu at leihau'r 'bwlch cyrhaeddiad' i ddysgwyr, mae ein dadansoddiad carfan a phoblogaeth yn dangos bod patrymau cyfranogiad mewn addysg drydyddol yn aml yn cyfateb â nodweddion personol a chefnidir dysgwyr.**

Mae'r adran hon yn ystyried a yw cyrhaeddiad dysgwyr addysg drydyddol hefyd yn amrywio yn ôl y nodweddion hyn.

Mae ein dadansoddiad yn cadw'r gwahaniaeth rhwng lleoliadau Chweched Dosbarth a cholegau Addysg Bellach. Hyd yn oed wrth ystyried cymwysterau sy'n ymddangos yn union yr un fath, roedd lefelau cyrhaeddiad yn uwch mewn lleoliadau Chweched Dosbarth. Er enghraifft, y pwyntiau Safon Uwch cyfartalog a enillwyd gan fyfyrwyr Chweched Dosbarth oedd 550, o'i gymharu â 495 pwynt ymysg y rhai mewn Addysg Bellach. Mewn meysydd eraill, mae'r gwahaniaeth mewn lefelau cyrhaeddiad yn llawer mwy. Er enghraifft, enillodd 78% o ddysgwyr galwedigaethol Lefel 3 neu uwch yn y Chweched Dosbarth, o'i gymharu â 48% mewn Addysg Bellach. Wrth gwrs, mae hyn yn adlewyrchu'r ystod ehangach o lefelau cymwysterau sy'n cael eu cynnig mewn Addysg Bellach o'i gymharu â'r Chweched Dosbarth.

**Mae Tabl 18 yn dangos yr amrywiad mewn cyrhaeddiad ar draws nodweddion personol yn ôl math o raglen a darpariaeth.**

## Rhywedd

---

Mae peth amrywiad mewn cyrhaeddiad ar draws pob math o ddysgu rhwng dynion a menywod. Mae gwahaniaethau, lle maent yn bodoli, yn fach, yn aml ddim ond ychydig o bwyntiau canran. Roedd merched yn perfformio'n well na dynion yn y Chweched Dosbarth, ac Addysg Bellach (ac eithrio pwyntiau Safon Uwch i fechgyn) ac mewn Dysgu Seiliedig ar Waith (ac eithrio hyfforddiant ymgysylltu a hyfforddiant Lefel 1).

<sup>21</sup> We allocate points to A level grades as follows: A\*=300, A=270, B=240, C=210, D=180, E=150. We assume AS level points attract half the value of these points (A\*=150, A=135, B=120, C=105, D=90, E=75). This schema does not relate to UCAS Tarriff points.

## Anabledd

---

Mae cyrhaeddiad dysgwyr ag anableddau yn is o'i gymharu â'r rheini sydd heb anableddau ar draws pob mesur heblaw am ddysgu seiliedig ar waith. Mae dysgwyr anabl yn debygol o fod â chyfradd pasio rhwng 10% a 25% yn is na dysgwyr eraill yn y Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach. Mae'r patrwm hwn yn parhau mewn Addysg Uwch, lle mae gan y rhai ag anableddau cyfyngus lai o ddsbarthiadau gradd israddedig dosbarth cyntaf ac ail uchaf, a chyfraddau pasio is ar lefel ôl-raddedig.

## Crefydd

---

Roedd gan ddysgwyr y nodwyd bod ganddynt gefndir Cristnogol lefelau perfformiad ychydig yn uwch o'u cymharu ag eraill, er nad oeddent yn wahanol iawn i'r rhai heb gred grefyddol neu'r rhai sy'n dilyn crefyddau eraill. Mae'r amrywiad yma gyfyngedig gyda dim ond tua 5% o wahaniaeth rhwng grwpiau.

## Iaith Gymraeg

---

Roedd gan ddysgwyr â sgiliau Gymraeg sgoriau pwyntiau uwch na'r rheini oedd heb y sgiliau hynny ar lefel Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch o rhwng 5 a 25 pwynt, ac roedd ganddynt gyfraddau pasio 6-7% yn uwch mewn hyfforddiant galwedigaethol naill ai yn y Chweched Dosbarth neu mewn Addysg Bellach.

## Gofalwyr

---

Mae gan ddysgwyr sydd â chyfrifoldebau gofalu lefelau cyrhaeddiad tebyg ar draws rhaglenni yn y Chweched Dosbarth, Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith, ac eithrio ar gyfer cyfraddau pasio galwedigaethol is. Fodd bynnag, roedd gwahaniaeth amlwg mewn cyrhaeddiad gofalwyr mewn Addysg Uwch. Roedd cyfran lai o ofalwyr (46%), o gymharu â'r rheini oedd ddim yn ofalwyr (61%), wedi cael gradd israddedig dosbarth cyntaf neu ail ddsbarth uchaf. Roedd cyfraddau pasio ôl-raddedig gofalwyr hefyd yn is (76%) na'r rheini sydd ddim yn ofalwyr (80%).

**Tabl 18: Cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol: Nodweddion personol a ddewiswyd, 2011/12-2016/17**

	Rhywedd		Anabledd			Crefydd				Iaith Gymraeg		Gofalwyr	
	Bechgyn	Merched	Heb ei gyfyngu	Wedi'i gyfyngu ychydig	Yn gyfyngedig iawn	Dim	Cristion	Arall	Heb ei nodi	Nac oes	Oes	Nac oes	Oes
<b>Chweched Dosbarth</b>													
Safon Uwch Gyfrannol (pwyntiau)	240	275	260	225	205	245	265	260	255	255	260	260	240
Safon Uwch (pwyntiau)	530	565	550	490	460	535	555	540	550	535	555	550	540
TGAU (% C+)	52%	48%	50%	39%	40%	43%	54%	45%	48%	44%	53%	50%	47%
Galwedigaethol (lefel 3+)	78%	78%	80%	55%	28%	76%	79%	73%	77%	74%	80%	78%	77%
Arall (Lefel 3+)	94%	96%	95%	85%	70%	94%	96%	90%	95%	92%	96%	95%	94%
<b>Colegau Addysg Bellach</b>													
Safon Uwch Gyfrannol (pwyntiau)	95	100	100	80	75	95	100	85	95	95	105	100	80
Safon Uwch (pwyntiau)	495	490	495	430	375	490	500	455	490	480	505	495	455
Galwedigaethol (lefel 3+)	46%	50%	50%	36%	30%	46%	51%	45%	47%	46%	53%	49%	45%
Arall (Lefel 3+)	24%	31%	30%	17%	11%	26%	30%	27%	27%	25%	34%	28%	23%
<b>Dysgu Seiliedig ar Waith (% pasio)</b>													
Hyfforddiant ymgysylltu	92%	89%	90%	88%	91%	90%	90%	94%	91%	91%	90%	90%	89%
Hyfforddiant Lefel 1	83%	82%	82%	83%	85%	82%	83%	81%	83%	82%	82%	82%	82%
Prentisiaeth sylfaen	85%	87%	86%	85%	86%	86%	87%	88%	85%	87%	85%	86%	88%
Prentisiaeth	88%	89%	89%	87%	89%	88%	89%	89%	88%	89%	88%	89%	89%
Prentisiaeth uwch	79%	82%	82%	81%	83%	81%	82%	81%	82%	82%	80%	81%	82%
<b>Addysg Uwch</b>													
Israddedig (Gradd Iaf/2.1)	60%	60%	61%	44%	40%	60%	60%	55%	61%	56%	63%	61%	46%
Myfyrwr ôl-raddedig (pasio)	80%	80%	80%	75%	69%	80%	80%	79%	77%	80%	79%	80%	76%

Yn Nhabl 19, rydym yn dangos yr amrywiad mewn cyrhaeddiad ar draws nodweddion economaidd-gymdeithasol o'r Cyfrifiad yn ôl math o raglen a darpariaeth.

**Tabl 19: Cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol: Statws economaidd-gymdeithasol, 2011/12–2016/17**

	NS-SEC y Pen Teulu									
	1.1	1.2	2	3	4	5	6	7	8	9
<b>Chweched Dosbarth</b>										
Safon Uwch Gyfrannol (pwyntiau)	290	315	275	250	250	240	225	215	195	225
Safon Uwch (pwyntiau)	590	640	570	530	540	505	485	470	450	500
TGAU (% C+)	61%	67%	57%	52%	50%	48%	41%	40%	33%	44%
Galwedigaethol (lefel 3+)	82%	77%	80%	81%	80%	79%	76%	75%	63%	72%
Arall (Lefel 3+)	97%	97%	96%	96%	96%	94%	92%	91%	83%	92%
<b>Colegau Addysg Bellach</b>										
Safon Uwch Gyfrannol (pwyntiau)	120	135	110	90	95	90	80	80	70	95
Safon Uwch (pwyntiau)	515	545	505	485	485	485	465	465	435	485
Galwedigaethol (lefel 3+)	58%	58%	55%	52%	51%	52%	44%	41%	29%	48%
Arall (Lefel 3+)	35%	35%	32%	31%	30%	29%	26%	23%	16%	29%
<b>Dysgu Seiliedig ar Waith (% pasio)</b>										
Hyfforddiant ymgysylltu	90%	89%	90%	92%	88%	92%	91%	91%	90%	90%
Hyfforddiant Lefel 1	86%	85%	83%	81%	81%	83%	82%	81%	85%	84%
Prentisiaeth sylfaen	86%	86%	86%	86%	86%	87%	87%	87%	85%	84%
Prentisiaeth	89%	88%	88%	89%	89%	90%	89%	89%	88%	85%
Prentisiaeth uwch	84%	84%	81%	81%	81%	82%	82%	81%	80%	81%
<b>Addysg Uwch</b>										
Israddedig (Gradd 1af/2.1)	66%	62%	60%	58%	62%	60%	58%	57%	54%	66%
Ôl-radd (pasio)	79%	80%	79%	80%	79%	81%	79%	80%	76%	87%



## Statws economaidd-gymdeithasol

---

Roedd amrywiad mewn cyrhaeddiad yn amlwg yn ôl statws economaidd-gymdeithasol yr aelwyd ar draws pob math o raglen yn y chweched dosbarth a'r ddarpariaeth Addysg Bellach. Er enghraifft, mae graddiant dosbarth cymdeithasol clir yn dod i'r amlwg mewn perthynas â chyrhaeddiad Safon Uwch. O fewn darpariaeth chweched dosbarth, mae dysgwyr o aelwydydd rheolaethol a phroffesiynol (grwpiau NS-SEC 1 a 2) yn cael graddau uwch (570-640 pwynt) na'r rheini o aelwydydd a galwedigaethau ailadroddus neu led-ailadroddus (grwpiau NS-SEC 6 a 7, 485-505pts) neu'r rheini lle'r oedd y pen teulu'n yn ddi-waith yn y tymor hir neu heb weithio erioed (grŵp NS-SEC 8, 470 pwynt).

Mae'r graddiant dosbarth cymdeithasol mewn cyrhaeddiad Safon Uwch yn fwy serth mewn Chweched Dosbarth o'i gymharu â lleoliadau Addysg Bellach. Mae hyn yn cael ei sbarduno gan y lefelau cyrhaeddiad cymharol uchel ymysg y rheini sydd o aelwydydd rheolaethol a phroffesiynol (grwpiau NS-SEC 1 a 2) mewn lleoliadau Chweched Dosbarth.

Mewn lleoliadau Addysg Uwch, nid oedd llawer o amrywiad yn y cyfraddau pasio ar lefel ôl-raddedig yn ôl statws economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, ar lefel israddedig roedd mwy o amrywiaeth, gydag oddeutu 10% o wahaniaeth rhwng y cyfraddau pasio uchaf ar gyfer grŵp NS-SEC 1: Cyflogwyr Mawr a Rheolwyr Uwch (66%), a'r isaf ar gyfer grŵp NS-SEC 8: Erioed wedi Gweithio/Di-waith Tymor Hir (57%).

## Amddifadedd

---

Roedd y gwahaniaeth cyfartalog mewn pwyntiau Safon Uwch Gyfrannol ar draws pob mesur amddifadedd (addysg, cyflogaeth, iechyd, a thai) 40 i 45 pwynt yn is ar gyfer dysgwyr difreintiedig yn y Chweched Dosbarth, a 10 i 15 pwynt yn is mewn Addysg Bellach. Mae'r bylchau mewn amddifadedd yn y Safon Uwch yn ymddangos yn waeth yn y Chweched Dosbarth. Er enghraifft, roedd dysgwyr Chweched Dosbarth a oedd yn profi amddifadedd tai wedi cael 65 pwynt yn llai na'r rheini oedd ddim yn profi amddifadedd tai, o'i gymharu â bwllch o 15-pwynt mewn Addysg Bellach.

Gwelodd dysgwyr galwedigaethol fylchau cyrhaeddiad o 4% ar gyfer dysgwyr a brofodd amddifadedd tai, 8% ar draws amddifadedd cyflogaeth ac addysg, a hyd at 11% ar draws amddifadedd iechyd yn y ddarpariaeth Chweched Dosbarth. Mewn AB, roedd y bylchau hyn yn fwy amlwg ar gyfer amddifadedd addysg (20%), cyflogaeth (13%) a thai (7%), ond yn is ar gyfer amddifadedd iechyd (8%). Ond, rhaid nodi y gall y canfyddiad mewn perthynas ag amddifadedd addysg fod yn eithaf tawtolegol, gan fod y rheini mewn aelwydydd sy'n ddifreintiedig o ran addysg yn fwy tebygol o fod yn gweithio tuag at gymwysterau lefel is.

O fewn Addysg Uwch, dim ond amrywiadau bach a welwyd yn ôl amddifadedd. Roedd bwllch mewn cyrhaeddiad israddedig ar gyfer amddifadedd addysg (6%), ond dim ond canran fechan o amrywiad ar draws y mesurau amddifadedd eraill ac ar lefel ôl-raddedig.

**Tabl 20: Cyrhaeddiad mewn addysg drydyddol: Amddifadedd aelwydydd, 2011/12–2016/17**

	Mesur Amddifadedd							
	Addysg		Cyflogaeth		Iechyd		Tai	
	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes	Oes	Nac oes
<b>Chweched Dosbarth</b>								
Safon Uwch Gyfrannol (pwyntiau)	210	265	225	265	240	265	220	260
Safon Uwch (pwyntiau)	460	555	490	555	520	555	485	550
TGAU (% C+)	37%	52%	39%	52%	43%	52%	37%	51%
Galwedigaethol (lefel 3+)	71%	79%	71%	79%	70%	81%	74%	78%
Arall (Lefel 3+)	89%	95%	90%	95%	92%	96%	91%	95%
<b>Colegau Addysg Bellach</b>								
Safon Uwch Gyfrannol (pwyntiau)	80	100	80	100	85	100	80	100
Safon Uwch (pwyntiau)	465	495	455	500	475	500	455	495
Galwedigaethol (lefel 3+)	32%	52%	38%	51%	43%	51%	42%	49%
Arall (Lefel 3+)	17%	31%	22%	30%	24%	30%	24%	28%
<b>Dysgu Seiliedig ar Waith (% pasio)</b>								
Hyfforddiant ymgysylltu	90%	91%	89%	91%	89%	91%	89%	91%
Hyfforddiant Lefel 1	83%	82%	83%	82%	82%	82%	82%	82%
Prentisiaeth Sylfaen	86%	87%	85%	87%	86%	87%	86%	86%
Prentisiaeth	88%	89%	88%	89%	88%	89%	88%	89%
Prentisiaeth Uwch	80%	82%	82%	82%	81%	82%	80%	82%
<b>Addysg Uwch</b>								
Israddedig (% gradd 1af/2.1)	54%	60%	57%	60%	58%	60%	55%	60%
Ôl-radd (% pasio)	82%	80%	78%	80%	79%	80%	83%	80%

# Crynodeb a Chasgliad

**Roedd y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o lwybrau dysgwyr drwy'r system addysg drydyddol yng Nghymru rhwng 2011/12 a 2018/19. Mae'n tynnu sylw at nodweddion a chefnidiroedd dysgwyr sy'n ymddangos yn arwyddocaol o ran hyrwyddo neu gyfyngu ar ymgysylltiad â'r sector addysg drydyddol sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus yng Nghymru.**

Yn gyntaf, gwnaethom gymryd safbwynt hydredol, gan edrych ar ddilyniant carfanau o addysg orfodol i addysg drydyddol ac ystyried nodweddion poblogaethau mewn gwahanol leoliadau trydyddol – Chweched Dosbarth, Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Gwnaethom arsylwi nad oedd cyfran ychydig yn uwch o fechgyn (8%) wedi symud ymlaen i Addysg Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach yng Nghymru o'i gymharu â merched (5%). Roedd cyfrannau uwch o ddysgwyr Datganiad AAA (21%) a dysgwyr Gweithredu a Mwy (12%) heb symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach, wedi'u dilyn gan ddysgwyr Gwyn Arall (10%) a dysgwyr prydau ysgol am ddim (9%). Roedd gan ddysgwyr ag anableddau cyfyngus gyfraddau llawer uwch o ddiffyg dilyniant (19%). Siaradwyr Cymraeg rhugl oedd â'r gyfran isaf o ddysgwyr a oedd ddim mewn Chweched Dosbarth nac Addysg Bellach (4%).

O ran amddifadedd, roedd cyfran y dysgwyr oedd ddim mewn Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach yn cynyddu gyda nifer y dangosyddion amddifadedd a welwyd mewn aelwydydd y dysgwyr (o 5% i 10%). Ar gyfer y rheini mewn aelwydydd lle nad oedd yr oedolion erioed wedi gweithio (NS-SEC 8), neu lle nad oedd gwybodaeth am ddosbarthiad galwedigaethol, roedd cyfran y dysgwyr nad oedd yn symud ymlaen i'r Chweched Dosbarth neu Addysg Bellach hefyd yn uchel ar 10% a 12% yn y drefn honno.

Roedd cyfran uwch o ferched wedi mynychu Chweched Dosbarth (37%) na bechgyn (30%). Roedd cyfran uwch o ddysgwyr Asiaidd (47%) o gymharu ag ethnigrwydd arall mewn Chweched Dosbarth. Roedd gan ddysgwyr prydau ysgol am ddim (15%) a dysgwyr AAA (rhwng 9% a 15%) gyfrannau isel mewn Chweched Dosbarth. Roedd y dilyniant i'r Chweched Dosbarth yn uwch ymysg y rheini heb ddangosyddion amddifadedd (43%) ac ar ei isaf ymysg y rhai â 4 dimensiwn o amddifadedd (13%).

Ar y llaw arall, mewn Addysg Bellach, roedd gan fechgyn gyfran uwch yn symud ymlaen i Addysg Bellach (53%) o'i gymharu â merched (47%), ac roedd gan ddysgwyr prydau ysgol am ddim gyfran uwch mewn Addysg Bellach (67%) o'i gymharu â dysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim (47%). Roedd dysgwyr â diagnosis AAA yn cael eu canfod yn amlach mewn colegau AB (rhwng 66% a 73%) o'i gymharu â dysgwyr heb AAA (46%). Mae dangosyddion amddifadedd a statws economaidd-gymdeithasol yn dangos bod y dysgwyr mwyaf difreintiedig yn fwy tebygol o symud ymlaen i Addysg Bellach (rhwng 60% a 70%).

O ran y math o raglen, roedd y rhan fwyaf o'r dysgwyr (52%) wedi cofrestru ar gyfer dysgu galwedigaethol, roedd 45% wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch Gyfrannol, 32% wedi cofrestru ar gyfer Safon Uwch, ac 20% wedi cofrestru ar weithgareddau Dysgu Seiliedig ar Waith.

Eto, roedd yr amrywiad ar gyfer dysgwyr prydau ysgol am ddim ac AAA yn amlwg. Mae gan ddysgwyr mewn aelwydydd llai difreintiedig, a'r rheini sydd â theulu/aelwyd NS-SEC uwch, fwy o ran mewn rhaglenni Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol. Roedd y rheini a oedd yn profi amddifadedd, ac o aelwydydd â grwpiau galwedigaethol statws is, yn cael eu cofrestru'n fwy cyffredin ar raglenni galwedigaethol neu ddysgu seiliedig ar waith.

Roedd merched yn cyfrif am gyfran uwch o ddysgwyr Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch na dynion, a oedd yn fwy tebygol o ymgymryd â rhaglenni galwedigaethol (54%) a dysgu seiliedig ar waith (58%). Roedd Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn cael eu dominyddu gan ddysgwyr oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim, ac roedd dysgwyr prydau ysgol am ddim yn tua un rhan o bump o ddysgwyr galwedigaethol a dysgwyr dysgu seiliedig ar waith.

Roedd amrywiadau mewn dysgu seiliedig ar waith yn dangos mwy o degwch ar draws grwpiau economaidd-gymdeithasol a galwedigaethol ar gyfer dysgwyr prentisiaeth o'i gymharu â hyfforddiant ymgysylltu a hyfforddiant Lefel 1. Gwelwyd patrymau tebyg ar gyfer dysgwyr ag anabledau cyfyngus. Mae hyn yn awgrymu, er bod Addysg Bellach yn llwyddo i ymgysylltu â'r rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, nad oes gan y rheini sy'n wynebu amddifadedd lluosog y cymwysterau neu'r sgiliau angenrheidiol i gofrestru ar gyfer rhaglenni lefel uwch.

Ychydig iawn o amrywiad a welwyd o ran tynnu'n ôl o Addysg Bellach a'r Chweched Dosbarth ym Mlwyddyn 12 neu Flwyddyn 13 yn seiliedig ar nodweddion personol a nodweddion yr aelwyd. Gallai archwiliad pellach o gyrhaeddiad a phresenoldeb blaenorol, neu waith ansoddol, daflu goleuni pellach ar y rhesymau dros adael yn gynnar.

Roedd rhywedd, statws AAA, a statws prydau ysgol am ddim dysgwyr yn dangos amrywiad mewn dilyniant o Gyfnod Allweddol 4 i'r Chweched Dosbarth neu leoliadau Addysg Bellach, a math o raglen – Safon Uwch, Safon Uwch Gyfrannol, a rhaglenni galwedigaethol. Roedd cefndir economaidd-gymdeithasol yr aelwyd hefyd yn dylanwadu ar lwybrau dilyniant a'r math o raglen.

O ran symud ymlaen i Addysg Uwch, gwelsom hefyd fod gan ddysgwyr benywaidd, oedd ddim yn cael prydau ysgol am ddim, heb AAA hysbys, heb statws anabledd, â statws y tu allan i'r DU, a chrefydd nad yw'n Gristnogol gyfran uwch o fynediad i Addysg Uwch. Roedd patrymau clir i'w gweld o ran diffyg dilyniant i Addysg Uwch ar sail dangosyddion amddifadedd aelwydydd, cefndiroedd economaidd-gymdeithasol, cefndiroedd galwedigaethol, a lefelau addysg. Datgelodd y rhain ymgysylltiad is mewn Addysg Uwch o gefndiroedd amddifadedd lluosog, statws is, a chefnidiroedd addysg is.

Roedd ein dadansoddiad o'r data boblogaeth yn dangos bod yr amrywiad yn debyg i'r amrywiad ym mhoblogaeth Cymru yn gyffredinol a phoblogaeth y garfan. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd yn ystyried cyrhaeddiad dysgwyr mewn gwahanol leoliadau. Gwelsom fod cyrhaeddiad pwyntiau Safon Uwch Gyfrannol a Safon Uwch yn uwch yn y Chweched Dosbarth nag mewn Addysg Bellach, ac roedd cyrhaeddiad uwch ar gyfer y rheini heb amddifadedd aelwyd, heb anableddau cyfyngus, a gyda chefnidiroedd economaidd-gymdeithasol a galwedigaethol uwch.

Fodd bynnag, yn wahanol i'r canfyddiadau ar gyfer cyrhaeddiad Chweched Dosbarth ac Addysg Bellach, nid oedd y math o ddysgu seiliedig ar waith yn dangos fawr ddim anghydraddoldeb amlwg yn seiliedig ar nodweddion y person neu'r aelwyd mewn perthynas â chyrhaeddiad. Serch hynny, roedd lefelau llwyddiant yn gostwng (cyfran yn pasio'r rhaglen) wrth i lefelau sgiliau'r rhaglenni gynyddu.

Ar gyfer Addysg Uwch, ychydig o amrywiad a welwyd mewn cyrhaeddiad yn ôl nodweddion personol. Fodd bynnag, mewn aelwydydd gyda mwy o amddifadedd lluosog, gwelwyd cyfraddau cyrhaeddiad is ar lefel israddedig, ac roedd statws anabledd aelwydydd yn dangos cyfran uwch yn ennill cymhwyster Addysg Bellach a chyfran is yn cael graddau dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch ar lefel israddedig. Ar lefel ôl-raddedig, unwaith eto nid oedd fawr o amrywiaeth mewn cyrhaeddiad yn ôl nodweddion personol. Y gwahaniaeth mwyaf oedd rhwng y rheini oedd â statws anabledd teuluol sy'n cyfyngu'n sylweddol o'i gymharu â'r rheini heb statws anabledd.

Yn gyffredinol, mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod anghyfartaleddau yn amlwg o ran dilyniant, gyda dysgwyr sydd â statws AAA, anabledd, amddifadedd, cefndiroedd economaidd-gymdeithasol is, cefndiroedd galwedigaethol is, a chefnidiroedd addysg is yn wynebu rhwystrau i barhau i ymgysylltu ag addysg ar ôl ysgol.

Roedd patrymau llwybrau cyffredin hefyd, wedi'u hamlinellu gan yr un nodweddion, gydag aelwydydd mwy cefnog yn fwy tebygol o symud ymlaen drwy'r system addysg drydyddol gyfan. Rydym yn argymhell bod ffactorau economaidd, cymdeithasol, iechyd a thai, ac effaith profi sawl dimensiwn o amddifadedd, yn cael eu hystyried yn strategaethau Medr i leihau anghydraddoldeb yn y dyfodol. Byddai hyn yn symud oddi wrth ffocws ar ddyfarniadau economaidd a gellid ei gynorthwyo gan dderbyniadau cyd-destunol a chymorth ychwanegol, yn enwedig gan fod ffactorau cyfyngus hefyd yn debygol o fod wedi effeithio ar gyrhaeddiad dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 4 ac yn gynharach, gan greu'r rhwystr cyntaf i barhau mewn addysg.

Er bod cyfyngiadau i'r dadansoddiad carfan y gellid ei gynnal ar y canlyniadau Addysg Uwch oherwydd y cyfnod roedd yr holl ddata ar gael ar ei gyfer, bydd yn bwysig parhau â'r gwaith yn y maes hwn, gan edrych ar gyfraddau ymadael a chyrrhaeddiad dysgwyr Addysg Uwch. Gallai data wedi'i gysylltu yn y dyfodol hefyd ystyried defnyddio'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, neu'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth, i ddeall ymhellach effaith astudiaeth Addysg Uwch ar anghydraddoldeb ariannol.

Dylid cynnal dadansoddiad pellach hefyd i edrych ar y canfyddiadau disgrifiadol yn yr adroddiad hwn, gan ddefnyddio dadansoddiad ystadegol mwy datblygedig ac ystyried ymgysylltiad a chyrrhaeddiad academaidd blaenorol, yn ogystal ag amrywiadau rhanbarthol yn y ddarpariaeth. I helpu Medr a Llywodraeth Cymru i fonitro gwaith Medr a chyfranogiad dysgwyr yn y sector addysg drydyddol, rydym hefyd yn argymhell bod Medr yn alinio ymhellach, neu hyd yn oed yn cyfuno ffynonellau data gwahanol ar addysg drydyddol, i alluogi dadansoddiad mwy effeithlon o dueddiadau yn y sector trydyddol yn y dyfodol.

## Cyfeiriadau

Diamond, I. (2016) **Adolygiad o Drefniadau Cyllido Addysg Uwch a Chyllid Myfyrwyr yng Nghymru**. Llywodraeth Cymru. Cyrchwyd o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-02/higher-education-funding-final-report-en.pdf>

Hazelkorn, E. (2016) **Tuag at 2030: Fframwaith ar gyfer datblygu system addysg ôl-orfodol o'r radd flaenaf i Gymru**. Cyrchwyd o: <https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-02/tuag-at-2030-fframwaith-ar-gyfer-datblygu-system-addysg-ol-orfodol-or-radd-flaenaf-i-gymru.pdf>

Jones K.H., Ford D.V., Thompson. S., & Lyons R.A. (2019). **A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform**. *International Journal of Population Data Science*, 4(2):1134.

ONS. (2014). **2011 Census Variable and Classification Information: Rhan 4**. Cyrchwyd o: <https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20160105160709/http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/census-data/2011-census-user-guide/information-by-variable/part-4--derived-variables.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2020) **Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol (PCET): Egwyddorion Newid**. Cyrchwyd o: <https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-11/principles-for-change-post-compulsory-education-and-training.pdf>

# Cydnabyddiaeth

**Mae'r ymchwil hon wedi cael ei chynnal fel rhan o raglen waith YDG Cymru, o dan faes ymchwil thematig Sgiliau a Chyflogadwyedd.**

Mae'r meysydd ymchwil thematig yn cyd-fynd â'r themâu blaenoriaeth a nodwyd yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Mae YDG Cymru yn dwyn ynghyd arbenigwyr gwyddor data o Ysgol Meddygaeth Prifysgol Abertawe, staff o Sefydliad Ymchwil a Data Cymdeithasol ac Economaidd Cymru (WISERD) ym Mhrifysgol Caerdydd a thimau arbenigol yn Llywodraeth Cymru i ddatblygu tystiolaeth newydd sy'n cefnogi'r Rhaglen Lywodraethu drwy ddefnyddio Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe, i gysylltu a dadansoddi data dienw. Mae YDG Cymru yn rhan o'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (rhan o Ymchwil ac Arloesi yn y DU) sy'n cael ei ariannu gan ADR UK.

 [ADRUK.org](https://www.adruk.org)

 [@ADR\\_Wales](https://twitter.com/ADR_Wales)





# Manylion yr Awduron

**Dr Katy Huxley** Cymrawd Ymchwil ym Mharc Ymchwil y Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd (SPARK) a chyd-ymchwilydd Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADR-W).

**Rhys Davies** Cyd-gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd a Data Cymru (WISERD) a Chyfarwyddwr Cyswllt Ymchwil Data Gweinyddol Cymru (ADR-W) ym Mhrifysgol Caerdydd.

## Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

### Jack Price

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

+44 (0) 29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

**OGL** This report Mae'r adroddiad hwn wedi'i drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored

 **Wales Centre for Public Policy**  
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc | Spark, Heol Maindy, Caerdydd, CF24 4HQ

 [www.wcpp.org.uk](http://www.wcpp.org.uk)

 [info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

 029 2087 5345

 @WCfPP

 /company/  
wcfpp

  
Economic  
and Social  
Research Council

  
Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

  
CARDIFF  
UNIVERSITY  
PRIFYSGOL  
CAERDYDD